Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Cymwysterau newydd

Gorffennaf 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Llywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **6** |
| **Argymhellion** | **9** |
| **Safonau** | **10** |
| Ysgolion | 10 |
| Colegau addysg bellach | 15 |
| **Agweddau dysgwyr tuag at y cymwysterau newydd a'u hargraffiadau ohonynt** | **18** |
| Ysgolion | 18 |
| Colegau addysg bellach | 19 |
| **Profiadau dysgu** | **21** |
| Ysgolion | 21 |
| Colegau addysg bellach | 43 |
| **Arweinyddiaeth** | **47** |
| **Sail y dystiolaeth** | **53** |
| **Geirfa** | **55** |
| **Atodiad – Data cenedlaethol o arholiadau** | **57** |
| **Cyfeiriadau** | **66** |

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet i Estyn ar gyfer 2017-2018. Mae'n rhoi trosolwg o'r modd y mae ysgolion a cholegau yn cynllunio ac yn gweithredu'u cwricwlwm ar ôl cyflwyno'r cymwysterau TGAU newydd mewn Saesneg iaith, Cymraeg iaith, mathemateg, mathemateg-rhifedd, a Bagloriaeth Cymru. Mae'n ystyried ansawdd addysgu ac asesu, cynllunio'r cwricwlwm, datblygiad staff, ac arweinyddiaeth. Hefyd, mae'r adroddiad yn cynnwys arfer sy'n deilwng o'i hystyried gan ysgolion a cholegau eraill.

Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, uwch arweinwyr mewn ysgolion a cholegau, a swyddogion mewn awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac asiantaethau eraill. Cafodd mwyafrif yr ysgolion a'r holl golegau yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr arolwg hwn eu barnu yn dda neu'n rhagorol ar gyfer safonau mewn arolygiad craidd er 2010.

## Cefndir

Yn 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o gymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, 'Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2012). Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid sefydlu un corff (Cymwysterau Cymru) i reoleiddio, cymeradwyo a sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau (islaw lefel gradd) sydd ar gael yng Nghymru, gan gyflwyno ymagwedd newydd a chadarnach at reoleiddio.

Tynnodd yr adolygiad sylw at bryderon ynghylch llythrennedd a rhifedd, a dadleuodd dros newidiadau yn strwythur a chynnwys cymwysterau TGAU mewn Saesneg iaith, Cymraeg iaith, mathemateg a Bagloriaeth Cymru. Roedd y pryderon hyn fel a ganlyn:

- *'nid yw'r lefelau llythrennedd a rhifedd a ddangosir gan lawer o ddysgwyr yn ddigon uchel*
- *yn gyffredinol, disgwylir i gymwysterau TGAU cyfredol mewn Saesneg iaith, Cymraeg iaith a mathemateg fod yn ddangosyddion dibynadwy o lefelau priodol o lythrennedd a rhifedd, ond nid ydynt yn llwyddo i wneud hynny. Ym marn rhai cyflogwyr a phrifysgolion, nid yw gradd C neu uwch hyd yn oed yn gwarantu llythrennedd neu rifedd digonol*
- *mae yna farn nad yw sylw digonol wedi cael ei roi i ansawdd ysgrifennu mewn TGAU Saesneg Iaith*
- *yn ôl llawer, nid yw asesiadau rheoledig yn briodol ar gyfer TGAU Saesneg Iaith/Cymraeg Iaith. Teimlir bod lefel uwch o allanoldeb a rheolaeth yn ddymunol ar gyfer y pynciau hyn' (Llywodraeth Cymru, 2012, tud.40)*

Gwnaeth yr adolygiad 42 o argymhellion. Yn seiliedig ar y rhain, aeth CBAC, ynghyd ag ystod eang o randdeiliaid, ati i gynhyrchu set ddiwygiedig o fanylebau ar gyfer addysgu Bagloriaeth Cymru, mathemateg a mathemateg-rhifedd, Saesneg iaith a Chymraeg iaith. Daeth y rhain ar gael i'w haddysgu yn 2015, ac fe'u dyfarnwyd gyntaf ym mlwyddyn academaidd 2016-2017.

Yn y ddogfen, 'Sut mae cymwysterau yn newid yng Nghymru', dywedodd Llywodraeth Cymru 'O fis Medi 2015, bydd TGAU Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith, Mathemateg – Rhifedd a Mathemateg yn asesu dysgwyr ar yr un mathau o sgiliau ag a brofir mewn asesiadau PISA rhyngwladol.' (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.2).

## Bagloriaeth Cymru

Yng nghyfnod allweddol 4, ym Medi 2007 y trefnwyd bod Bagloriaeth Cymru ar gael i'w haddysgu gyntaf. Ei nodau oedd darparu profiadau ehangach i ddisgyblion na rhaglenni dysgu traddodiadol a datblygu medrau trosglwyddadwy a allai fod yn ddefnyddiol mewn addysg uwch a chyflogaeth. Bryd hynny, roedd y rhaglen yn cynnwys yr 'Astudiaethau Craidd' ac 'Opsiynau'. Roedd cydrannau'r Astudiaethau Craidd fel a ganlyn:

- sgiliau allweddol
- Cymru, Ewrop a'r Byd (pedair elfen a modiwl iaith)
- addysg yn gysylltiedig â gwaith (gweithio gyda chyflogwr a gweithgaredd menter tîm)
- addysg bersonol a chymdeithasol (pum elfen)

Yn ychwanegol at y cydrannau a restrwyd uchod, roedd yn rhaid i bobl disgybl gwblhau ymchwiliad personol ac ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ar lefel briodol. Roedd modd ennill achrediad ar ddwy lefel, 'sylfaen' (lefel 1) a chanolradd (lefel 2). Roedd disgwyl i ddisgyblion gadw portffolio o dystiolaeth. Roedd asesiad o'r rhain a'r ymchwiliad personol i'w gynnal gan athrawon yn yr ysgol. Yna, roedd sampl fach o waith disgyblion yn cael ei gwirio gan CBAC.

Roedd adolygiad 2012 o gymwysterau yn argymell y dylai Cymhwyster Bagloriaeth Cymru 'diwygiedig a mwy trylwyr' fod wrth wraidd y system gymwysterau genedlaethol newydd y mae'r adolygiad hefyd wedi'i hargymell ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru, 2012).

Ym Medi 2015, trefnwyd bod manyleb newydd ar gyfer achredu Bagloriaeth Cymru ar gael. Mae'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru diwygiedig yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau ategol. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys pedair cydran:

- Prosiect Unigol, sy'n cyfrif am 50% o'r radd derfynol
- Yr Her Menter a Chyflogadwyedd, sy'n cyfrif am 20% o'r radd derfynol
- Yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, sy'n cyfrif am 15% o'r radd derfynol
- Her y Gymuned, sy'n cyfrif am 15% o'r radd derfynol (CBAC, 2016)

Mae canlyniadau cyfunol y rhain yn penderfynu p'un a yw'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cael ei dyfarnu ar lefel Genedlaethol (lefel 2) neu lefel Sylfaen (lefel 1).

Mae'r cymwysterau ategol yn cynnwys TGAU mewn Saesneg iaith neu Cymraeg iaith a TGAU naill ai mewn mathemateg-rhifedd neu mathemateg. Mae angen tri chymhwyster TGAU arall ar ddisgyblion, a gall dau ohonynt fod yn gymwysterau cyfwerth. Er mwyn ennill dyfarniad Bagloriaeth Cymru ar lefel Genedlaethol, rhaid i ddisgyblion ennill graddau A*-C ym mhob un o'r pum cymhwyster ategol. Ar lefel Sylfaen, rhaid i ddisgyblion ennill graddau D-G yn y rhain.

Comisiynodd Cymwysterau Cymru adolygiad o fodel dylunio ac asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau, a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru. Cyhoeddwyd hwn yn Ebrill 2018 (Engeli, Daly a Davidson, 2018).

## Saesneg iaith a Cymraeg iaith

Argymhellodd adolygiad 2012 o gymwysterau 'y dylai'r cymwysterau newydd roi mwy o sicrwydd ynghylch llythrennedd:

- *'drwy adeiladu'n benodol ar y lefelau llythrennedd y disgwylir y byddai dysgwyr wedi datblygu erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 i ymateb i'r Fframwaith Llythrennedd newydd*
- *drwy roi llawer mwy o bwyslais ar ansawdd a chywirdeb ysgrifennu ac ar sgiliau ysgrifennu craidd megis sillafu, atalnodi a gramadeg na'r manylebau a gafodd eu haddysgu o fis Medi 2010*
- *trwy gael ei asesu'n bennaf drwy asesiadau sy'n cael eu marcio'n allanol ac sy'n gyson ar draws Cymru a rhwng y ddwy iaith' (Llywodraeth Cymru, 2012, tud.10).*

O Fedi 2016, y cymhwyster TGAU newydd mewn Saesneg iaith a Cymraeg iaith gan CBAC yw'r unig gwrs achrededig sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer ysgolion a gynhelir.

Nodau'r ddau gymhwyster TGAU Cymraeg a Saesneg iaith yw datblygu'r medrau a'r galluoedd i ddisgyblion sydd eu hangen arnynt 'i ymgymryd â rolau gweithgar a chyfrifol yn eu cymunedau, eu bywydau bob dydd, yn y gweithle ac mewn lleoliadau addysgol' (CBAC, 2014a, tud. 6 a CBAC, 2014b, tud. 7). Mae'r manylebau diwygiedig yn cynnwys nifer o'r nodweddion yn y manylebau blaenorol. Fodd bynnag, maent yn cynnwys nifer o nodweddion newydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- arholiadau di-haen
- arholiadau sydd ar gael ym mis Mai neu fis Mehefin gyda chyfle ychwanegol i ailsefyll yn Nhachwedd bob blwyddyn
- dim asesiadau ysgrifenedig rheoledig; yn lle hynny, mae asesiadau rheoledig yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar lafaredd disgyblion
- gostyngiad o ran faint y mae asesiadau rheoledig yn cyfrannu at y radd derfynol o 40% i 20% mewn Saesneg, ac o 60% i 30% mewn Cymraeg iaith gyntaf
- asesiad o hyfedredd disgyblion o ran cael gafael ar wybodaeth ac adalw gwybodaeth o ystod eang o destunau ysgrifenedig a dynamig/digidol
- gofyniad i ddisgyblion ddatblygu'u medrau prawfddarllen a golygu
- cwestiynau amlddewis, yn debyg i'r rheini a geir yn y profion PISA
- un radd gyffredinol, ond hefyd adrodd ar wahân ar gyfer llafaredd, darllen ac ysgrifennu

## Mathemateg a mathemateg-rhifedd

Roedd adolygiad 2012 o gymwysterau yn cynnwys yr argymhelliad canlynol:

*Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno, i'w haddysgu o 2015, dau gymhwyster TGAU mathemateg newydd, un ar gyfer rhifedd a'r llall yn astudio agweddau ar dechnegau mathemateg. Dylai'r cymhwyster TGAU Rhifedd adeiladu'n benodol ar y lefelau rhifedd y disgwylir byddai dysgwyr wedi eu datblygu erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn ymateb i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Dylai'r ddau gymhwyster TGAU:*

- *fod yn ddyfarniadau sengl TGAU llawn, sy'n cwmpasu'r ystod lawn o raddau TGAU*
- *cael eu hasesu trwy arholiadau sy'n cael eu marcio'n allanol ac sy'n gyson ar draws Cymru'* (Llywodraeth Cymru, 2012, tud.10)

O Fedi 2016, y cymhwyster TGAU newydd mewn mathemateg a mathemateg-rhifedd gan CBAC yw'r unig gyrsiau achrededig sydd ar gael ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Mae llawer o gynnwys y cymhwyster TGAU mathemateg a mathemateg-rhifedd yr un fath â'r cwrs TGAU mathemateg blaenorol. Mae mathemateg-rhifedd wedi'i gynllunio i ganolbwyntio ar y fathemateg y bydd ei hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau bob dydd, ym myd gwaith, ac mewn meysydd cyffredinol eraill o'r cwricwlwm (CBAC, 2017a). Bydd TGAU mathemateg yn datblygu agweddau ar fathemateg sydd eu hangen i fynd ymlaen i ymgymryd ag astudiaethau gwyddonol, technegol neu fathemategol pellach (CBAC, 2017b). Ceir ychydig o wahaniaethau nodedig o'r manylebau blaenorol, gan gynnwys:

- Mae mathemateg-rhifedd a mathemateg ar gael fel cyrsiau llinol yn unig
- Mae arholiadau ar gael yn Nhachwedd a Mehefin ar gyfer y ddau gwrs newydd
- Erbyn hyn, ceir taer haen mynediad: Sylfaen, Canolradd ac Uwch
- Bydd cwestiynau arholiad mewn arholiadau mathemateg-rhifedd yn cynnwys mwy o bwyslais ar gwestiynau sydd wedi'u gosod mewn cyd-destunau go iawn

## Paratoi ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd

Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer cymorth i ysgolion i gyd-fynd â'r cymwysterau TGAU newydd, gan gynnwys drwy CBAC, y consortia rhanbarthol ac i gaffael adnoddau dysgu yn uniongyrchol, fel 'Deunyddiau Asesu Addysgu'. Mae'r deunyddiau, a gynhyrchwyd gan Brifysgol Aberystwyth, ar gael yn ddwyieithog ar lwyfan Hwb. Hefyd, fe wnaeth CBAC gontractio'r gwaith i Brifysgol Aberystwyth i greu deunyddiau asesu sampl ac adnoddau eraill i gyd-fynd â'r cyrsiau newydd. Hefyd, cymerodd cynrychiolwyr o'r consortia rhanbarthol ran weithredol yn y gwaith hwn, a rhoddwyd cyllid i bob consortiwm rhanbarthol ar gyfer staff ymgynghori, gan gynnwys arbenigwyr mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru i gynorthwyo ysgolion gydag adnoddau a hyfforddiant.

## Cofrestriadau cynnar a lluosog ar gyfer cymwysterau TGAU yng Nghymru

Yn Hydref 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ei adroddiad ar gofrestriadau cynnar a lluosog ar gyfer cymwysterau TGAU yng Nghymru (Cymwysterau Cymru, 2017a). Yn eu datganiad sefyllfa, maent yn argymell y 'Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud newidiadau i'r ffordd y caiff y mesurau perfformiad ysgolion eu cyfrifo, fel mai dim ond y radd gyntaf a ddyfernir i fyfyrwyr sy'n cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgol' (Cymwysterau Cymru, 2017b). Derbyniwyd yr argymhelliad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar 16 Hydref 2017, a bydd y dull yn dod i rym ar gyfer adroddiadau ysgolion yn 2019.

## Colegau addysg bellach

Argymhellodd yr adolygiad o gymwysterau y dylai'r holl ddysgwyr nad ydynt wedi ennill graddau A*-C TGAU Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg yn 16 oed weithio tuag at gyflawni'r cymwysterau hyn fel rhan o unrhyw raglen astudio amser llawn yn 16-19 oed (Llywodraeth Cymru, 2012).

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau ailsefyll TGAU mewn colegau wedi ennill gradd D man uchaf mewn cynigion blaenorol. Nid oes gan lawer o'r rhain hyder yn eu gallu. Yn nodweddiadol, daw dysgwyr mewn dosbarthiadau ailsefyll TGAU o'r ystod lawn o ysgolion partner coleg a dangosant amrywiaeth eang o gryfderau a gwendidau. Mae ychydig o ddysgwyr yn mynychu darpariaeth ran-amser neu ddosbarthiadau nos. Yn aml, mae'r rhain yn cynnwys dysgwyr sy'n oedolion sydd wedi datblygu ystod o strategaethau dysgu a enillwyd o'u profiad bywyd. Mae ychydig o ddysgwyr eisoes wedi ennill gradd TGAU A*-C ac yn anelu i wella eu gradd er mwyn cael mynd ar gyrsiau lefel uwch neu ddatblygu'u gyrfaoedd.

Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid untro o £1.4 miliwn yn 2015-2016 fel cyfraniad tuag at gost cymhwyso ei pholisi ar ailsefyll TGAU. Mae'r polisi'n amlinellu y dylai'r holl ymadawyr ysgol sy'n cofrestru ar gwrs addysg bellach un flwyddyn, ac a enillodd radd D mewn TGAU Saesneg neu fathemateg, astudio ar gyfer yr arholiad perthnasol, a'i ailsefyll, gyda'r nod o sicrhau gradd C neu'n uwch. Ar gyfer cyrsiau dwy flynedd, mae'r polisi yn gymwys hefyd i ddysgwyr a enillodd radd E mewn Saesneg neu fathemateg.

Yn ei llythyr cylch gwaith blynyddol i golegau addysg bellach ar gyfer 2017-2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg arweiniad i golegau yn egluro mai nod Llywodraeth Cymru yw 'bod pob canolfan yn gweithio tuag at sicrhau bod 100% o'r dysgwyr cymwys yn gwneud Bagloriaeth Cymru erbyn 2020' (Llywodraeth Cymru, 2016). O ganlyniad, mae colegau wedi lleihau graddfa eu darpariaeth ar lefel Sylfaen a Chenedlaethol i ganolbwyntio ar grwpiau o ddysgwyr na chwblhaodd y cymhwyster yn yr ysgol ond sydd â rhagolwg realistig o gwblhau'r cymhwyster o fewn y ffrâm amser heriol un flwyddyn. Mae rhaglenni sy'n cynnwys Bagloriaeth Cymru ar lefel Genedlaethol yn nodweddiadol yn cynnwys trin gwallt a harddwch, peirianneg a pheirianneg cerbydau modur.

# Prif ganfyddiadau

## Ysgolion

1 Mewn gwersi Cymraeg a Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau llefaredd cryf. Fodd bynnag, mae ychydig ohonynt yn amharod i gyfrannu ac nid ydynt yn datblygu'u medrau llafar yn briodol. Mae medrau darllen addas gan lawer o ddisgyblion, ond mae diffyg cymhwysedd mewn medrau lefel uwch gan leiafrif, yn enwedig medrau cyfosod mewn Saesneg a chymharu mewn Cymraeg. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn defnyddio ac yn datblygu medrau crynhoi a chyfosod yn ddigon aml.

2 Ysgrifennu yw'r medr lleiaf datblygedig yn y ddwy iaith. Mewn Saesneg, mae lleiafrif o ddisgyblion yn dal i wneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol ac mae eu hymdeimlad o gynulleidfa yn wael. Mewn Cymraeg, ceir camgymeriadau sillafu a gramadegol sylfaenol yng ngwaith lleiafrif o ddisgyblion.

3 Mewn gwersi mathemateg a mathemateg-rhifedd, mae dealltwriaeth sicr o gysyniadau sylfaenol gan lawer o ddisgyblion, ac mae gafael cadarn ar algebra gan fwyafrif. Mae mwyafrif yn hyderus wrth ddewis dulliau priodol i ddatrys problemau. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth gymwys o'r cysyniadau hyn gan leiafrif o ddisgyblion ac maent yn ei chael hi'n anodd datrys problemau yn effeithiol. Nid oes medrau rhif sylfaenol sicr gan ychydig o ddisgyblion.

4 Yn 2017, fe wnaeth ychydig dros hanner y disgyblion gwblhau'r dystysgrif her sgiliau yn llwyddiannus ar lefel 2, ac fe wnaeth ychydig o dan 40% gyflawni Bagloriaeth Cymru ar lefel Genedlaethol (lefel 2) yn gyffredinol. Cafodd ryw 30% o ddisgyblion achrediad Bagloriaeth Cymru lefel Sylfaenol (lefel 1). Fe wnaeth nifer sylweddol yn llai o ddisgyblion ennill y graddau uchaf un yn y cymhwyster hwn nag mewn Saesneg, Cymraeg neu fathemateg. Mae merched yn perfformio gryn dipyn yn well na bechgyn (Llywodraeth Cymru, 2017b). Yn ystod eu heriau sgiliau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau fel gwaith tîm, trefniant personol a rheoli amser. Mewn llawer o'r gwersi hyn, mae disgyblion yn datblygu'u medrau llefaredd, darllen ac ysgrifennu yn addas. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd na TGCh yn ddigon da mewn gwersi Bagloriaeth Cymru.

5 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion yn gadarnhaol iawn ynghylch eu gwersi Saesneg, Cymraeg a mathemateg. Mae'r mwyafrif yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu harholiadau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â chymhwyster Bagloriaeth Cymru, er bod lleiafrif yn negyddol. Mae agweddau disgyblion, yn gyffredinol, yn adlewyrchu'r statws y mae ysgol benodol, yn enwedig ei harweinwyr, yn ei roi i'r cwrs hwn.

6 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi ail-ddylunio'u cynlluniau gwaith i baratoi disgyblion ar gyfer y cwestiynau 'arddull PISA' a welir yn y manylebau TGAU newydd. Mae mwyafrif o ysgolion wedi gwneud addasiadau addas i'w haddysgu i ymateb i'r manylebau newydd. Fodd bynnag, ni fu digon o gynllunio i ymestyn disgyblion mwy abl, yn enwedig yng nghymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae'r addysgu yn effeithiol mewn llawer o wersi TGAU ac yn y mwyafrif o wersi Bagloriaeth Cymru.

7 Mae’r rhan fwyaf o arweinwyr pwnc yn dangos brwdfrydedd dros eu pwnc ac mae llawer ohonynt yn arwain eu hadrannau’n fedrus. Mae dealltwriaeth addas gan y mwyafrif o sut i arfarnu dysgu ac addysgu yn eu hadran. Nid yw lleiafrif yn nodi gwendidau yn y ddarpariaeth yn gywir, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio ar gyfer gwelliant. Yn y mwyafrif o ysgolion, caiff staff eu dewis i gyflwyno Bagloriaeth Cymru ar sail eu hargaeledd ar yr amserlen yn bennaf, a cheir gormod o amrywio o ran brwdfrydedd ac arbenigedd ymhlith staff sy’n cyflwyno’r cwrs. Mae ansawdd arweinyddiaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn rhy amrywiol hefyd.

8 Mae’r rhan fwyaf o uwch arweinwyr wedi cynorthwyo adrannau yn gryf i baratoi ar gyfer y cyrsiau newydd. Mae llawer o uwch arweinwyr wedi cynyddu’r amser cwricwlwm ar gyfer y pynciau hyn yn enwedig mathemateg a’r Fagloriaeth Gymru. Fodd bynnag, mae’r cwricwlwm wedi cael ei gyfyngu mewn llawer o ysgolion. Er enghraifft, er bod bron pob ysgol yn cynnwys ffocws addas ar lenyddiaeth fel rhan o’u gwersi Saesneg iaith a Cymraeg iaith, mae cyfran y disgyblion sy’n astudio TGAU Saesneg llenyddiaeth neu Cymraeg llenyddiaeth a phynciau eraill wedi dirywio’n sylweddol er 2012.

9 Mae llawer o ysgolion yn cofrestru disgyblion yn gynnar ar gyfer arholiadau. Gallai’r strategaeth hon fod yn briodol i’r disgyblion mwyaf abl ac o ran sicrhau bod disgyblion sy’n wynebu risg dadrithio neu sy’n gadael yr ardal cyn diwedd Blwyddyn 11 yn ennill cymhwyster. Fodd bynnag, mae cofrestru’n gynnar ar raddfa fawr yn gostus, yn tarfu ar rediad arferol ysgolion, ac yn arwain yn aml at ddisgyblion yn sefyll arholiadau nad ydynt wedi’u paratoi’n llawn ar eu cyfer. Yn aml, mae disgyblion yn bodloni â’r radd gyntaf a dderbyniant ac nid ydynt yn parhau â’u hastudiaethau yn y pwnc hwnnw. O ganlyniad, nid ydynt yn cyflawni’u potensial llawn yn aml o ran y graddau a gyflawnwyd neu yn eu dealltwriaeth.

10 Bu amrywio eang yn ansawdd cymorth i ysgolion gan y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a CBAC. Mewn mwyafrif o achosion, mae adborth o ysgolion yn dynodi y cafwyd cymorth addas gan CBAC i gyflwyno’r cyrsiau newydd ac i baratoi disgyblion ar gyfer yr arholiadau newydd. Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, mae ysgolion yn teimlo y bu diffyg eglurder a chysondeb yn y cymorth hwn. Mae ysgolion yn gadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â’r cymorth a ddarparwyd gan gonsortia rhanbarthol. At ei gilydd, mae’r system gymorth a gynigiwyd i ysgolion wedi bod yn llwyddiannus o ran hwyluso’r trosglwyddo i’r manylebau newydd.

## Colegau addysg bellach

11 Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfnerthu’u dysgu o’r ysgol yn dda ac mae llawer yn gwneud cynnydd addas wrth baratoi i ailsefyll arholiadau TGAU mewn Saesneg a mathemateg. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data am ddeilliannau’r arholiadau hyn.

12 Mae agweddau cadarnhaol gan y rhan fwyaf o ddysgwyr at eu gwaith yn eu gwersi ailsefyll TGAU Saesneg a mathemateg. Yn gyffredinol, mae colegau wedi cynllunio’n dda fel bod myfyrwyr yn gallu astudio ar gyfer cyrsiau TGAU a’u hailsefyll. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau TGAU Saesneg a mathemateg, ond nid mewn rhaglenni TGAU Cymraeg.

13 Yn eu gwersi Bagloriaeth Cymru, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â thasgau ac yn ennill ystod ddefnyddiol o fedrau sy'n ategu'u medrau galwedigaethol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ddysgwyr fyddai'n dilyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru o ddewis.

14 Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthynas gref â'r dysgwyr ac maent yn cynnal dosbarthiadau tawel â ffocws da sy'n gydnaws â dysgu ac ymddygiad da. Mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn addasu'u haddysgu yn ddigonol i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr. O ganlyniad, mae disgyblion is eu gallu yn ei chael yn anodd, ac nid yw dysgwyr uwch eu gallu yn cael eu herio digon. Yn gyffredinol, nid yw colegau'n derbyn digon o wybodaeth o ysgolion am gyrhaeddiad blaenorol dysgwyr er mwyn iddynt fynd i'r afael â meysydd penodol i'w datblygu mewn modd amserol.

15 Caiff y rhan fwyaf o athrawon Bagloriaeth Cymru hyfforddiant priodol ac maent yn deall gofynion y fanyleb yn dda. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif ohonynt sydd â mynediad at rwydweithiau arfer dda gyda cholegau neu ysgolion eraill.

16 Mae uwch arweinwyr wedi ymrwymo i sicrhau bod dysgwyr yn gallu astudio ar gyfer cymwysterau TGAU mewn Saesneg iaith a mathemateg a chymhwyster Bagloriaeth Cymru. Yn y rhan fwyaf o golegau, mae rolau, cyfrifoldebau, a llinellau atebolrwydd mewn perthynas â'r cymwysterau TGAU yn glir. Gwnaed buddsoddiad priodol i recriwtio staff newydd a hyfforddi staff presennol i gyflwyno'r cymwysterau newydd.

17 Ceir gweithdrefnau hunanarfarnu effeithiol yn y rhan fwyaf o golegau. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw hunanarfarnu yn arwain at greu darlun cywir o ansawdd yr addysgu, na'r dysgu, yn enwedig mewn dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru.

# Argymhellion

**Dylai ysgolion a cholegau:**

A1 Herio'r ystod gallu llawn a darparu tasgau ysgogol sy'n datblygu gwydnwch dysgwyr

A2 Sicrhau bod dysgwyr yn gwella eu hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg

A3 Cael disgwyliadau uchel fod pob dysgwr yn cyfrannu'n llafar, yn enwedig yn Gymraeg

A4 Gwella medrau datrys problemau disgyblion mewn mathemateg ac mewn mathemateg-rhifedd

A5 Datblygu medrau darllen lefel uwch disgyblion mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg a Bagloriaeth Cymru

A6 Gwella perfformiad bechgyn mewn Cymraeg, Saesneg a Bagloriaeth Cymru

A7 Helpu mwy o ddisgyblion ennill y graddau uchaf ym Magloriaeth Cymru

A8 Darparu cyfleoedd gwell i ddisgyblion ddatblygu'u medrau rhifedd a TGCh ym Magloriaeth Cymru

A9 Ystyried yn ofalus eu staffio a'u hamserlennu ar gyfer Bagloriaeth Cymru a'r statws maent yn ei roi i'r cymhwyster

A10 Darparu hyfforddiant i arweinwyr canol i'w helpu i arfarnu safonau ac addysgu yn eu hadrannau

A11 Gweithio gyda'i gilydd yn well i sicrhau bod ganddynt drefniadau cyfreithiol, diogel a chynhwysfawr ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth am gyraeddiadau blaenorol disgyblion ac i ddatblygu rhwydweithiau o arfer broffesiynol

**Yn ogystal:**

A12 Dylai ysgolion ystyried ehangder eu cwricwlwm, gan gynnwys cyfleoedd ac anogaeth i astudio Saesneg llenyddiaeth a Chymraeg llenyddiaeth

A13 Dylai colegau gynyddu nifer y dysgwyr sy'n ailsefyll TGAU Cymraeg iaith

# Safonau

## Ysgolion

### Saesneg iaith

18 Mae safon gyffredinol gwaith disgyblion cyfnod allweddol 4, mewn llyfrau ac mewn gwersi, yn debyg iawn i hynny a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf yn ystod y manylebau TGAU blaenorol.

19 Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon, er nad ydynt yn gwrando gystal ar ei gilydd yn aml. Maent yn gallu ac yn barod i gynnig ymatebion llafar priodol, mewn ymateb i gwestiynau'r athro yn bennaf. Mae trafodaethau yn yr ystafell ddosbarth yn fywiog yn aml ac mae disgyblion, er enghraifft, yn gallu cynnig barnau petrus ar gymeriadau a'u perthnasoedd mewn testunau llenyddol fel 'The Merchant of Venice' a 'Romeo and Juliet'. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn darparu ymatebion clir, datblygedig gan ddefnyddio geirfa addas. Mae ychydig yn darparu ymatebion cynaledig sydd wedi'u datblygu'n dda iawn. Defnyddiant eirfa eang a soffistigedig yn aml wrth drafod testunau llenyddol fel 'To Kill a Mockingbird' ac wrth gyffelybu â digwyddiadau diweddar yn Charlottesville, Virginia. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion mwy abl yn cynhyrchu areithiau difyr ar destunau sy'n amrywio o animeiddio mewn ffilmiau Disney i'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae ychydig o ddisgyblion yn amharod i gyfranogi mewn trafodaeth pâr neu grŵp bychan. O ganlyniad, nid ydynt yn cyfnerthu nac yn ymestyn eu dealltwriaeth o destunau nac yn datblygu'u medrau gwrando a siarad digon.

20 Mae gan lawer o ddisgyblion ystod addas o strategaethau darllen y byddant yn eu defnyddio'n briodol i gefnogi'u dysgu. Er enghraifft, gallant lithrddarllen a bwrw golwg yn effeithiol i ddethol gwybodaeth berthnasol o erthyglau ar chwaraeon eithafol. Gall mwyafrif wneud dewisiadau pwyllog o ran dyfyniadau i ddangos eu barnau ar gymeriadau llenyddol fel yr Arglwydd Capulet ac Atticus Finch. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn deall yn llwyr sut i ddefnyddio dyfyniadau'n effeithiol i ddadansoddi ac arfarnu manylion mewn testunau erbyn diwedd cyfnod allweddol 3. Nid ydynt yn gallu dethol rhannau perthnasol o destunau yn ddigon cywir i ddangos eu dadleuon.

21 Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn dda i wella'u dealltwriaeth o destunau llenyddol ac anllenyddol, er enghraifft, trwy ddadansoddi sut mae testun yn ceisio perswadio pobl i wylio Gemau Olympaidd Rio de Janeiro. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o ddisgyblion afael cadarn ar ystod o strategaethau darllen. Yn fwyaf cyffredin, nid oes cymhwysedd ganddynt mewn medrau lefel uwch fel rhesymu a dod i gasgliad, a chyfosod yn arbennig. Mae'r diffygion hyn yn parhau yn aml oherwydd mai dim ond ystod gyfyngedig o lenyddiaeth heriol a difyr a gaiff disgyblion. Mae'r fanyleb TGAU Saesneg iaith newydd yn mynnu bod disgyblion yn crynhoi a chyfosod, ac i wahaniaethu rhwng y ddau. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth o ddisgyblion yn defnyddio ac yn datblygu'r medrau hyn, ac eithrio mewn ymarferiadau targedig paratoi at arholiadau.

22 Mae safon ysgrifennu disgyblion yn wannach yn gyffredinol na safon eu darllen, sy'n wannach na'u llefaredd. Mae llawer o ddisgyblion yn deall diben eu hysgrifennu yn

dda, sef i hysbysu, perswadio, disgrifio neu adrodd, a chonfensiynau'r math hwnnw o ysgrifennu.  Yn gyffredinol, maent yn mynd i'r afael yn hyderus â thasgau ysgrifennu, er mai ymdeimlad cyfyngedig o gynulleidfa sydd gan leiafrif o ddisgyblion.  O ganlyniad, maent yn gwneud dewisiadau iaith anghywir ac nid yw eu hysgrifennu'n cynnwys y tôn cywir.

23 Mae lleiafrif o ddisgyblion yn parhau i wneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol yn eu hysgrifennu, fel drysu rhwng amser, dewis homoffonau amhriodol, a cholli rheolaeth gyffredinol drwy uno comas (pan ddefnyddir coma i gysylltu dau gymal annibynnol) a gorddefnyddio is-gymalau yn hytrach na brawddegau llawn.

24 Erbyn hyn, caiff disgyblion eu harholi ar eu gallu i brawfddarllen darn o waith ysgrifenedig.  Nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldeb digonol am brawfddarllen eu gwaith eu hunain, er mai'r ffaith nad oes disgwyliad penodol arnynt i wneud hynny yw'r rheswm am hyn yn aml.  Yn yr un modd, mae buddion adolygu eu gwaith trwy ddulliau fel 'amser adolygu annibynnol dan gyfarwyddyd' yn cael eu tanseilio'n aml am nad yw athrawon yn ailystyried ymatebion disgyblion mewn modd digon amserol neu drwyadl.  Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cael anhawster gydag ysgrifennu eglurhaol ac nid ydynt yn glir ynghylch y ffocws sydd ei angen mewn rhai tasgau ysgrifennu, yn enwedig wrth ofyn i ddisgyblion ddisgrifio achlysur.  Yn aml, mae hyn oherwydd bod geiriad tasgau penodol yn arwain lleiafrif o ddisgyblion i adrodd hytrach na disgrifio.

### Cymraeg iaith

25 Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau'r athro yn gywir.  Gweithiant yn dda â'i gilydd mewn parau a grwpiau er mwyn trafod, mynegi barn, dadansoddi a dehongli amrywiaeth o destunau a themâu.  Mae llawer yn cynnig ymatebion estynedig a deallus.  Mae llawer o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl a hyderus, er enghraifft mewn trafodaethau deallus a dadansoddiadau o'r cymeriadau yn y nofel 'Yn y Gwaed' a dehongli'r gerdd 'Y ferch yn y bar'.  Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio idiomau yn hyderus wrth ymateb i ystod o ddarnau llenyddol, a defnyddiant ddyfyniadau priodol i gefnogi'u barnau.  Fodd bynnag, dim ond atebion byr ar lafar y mae ychydig o ddisgyblion yn eu cynnig, ac nid ydynt yn ymhelaethu.  Mae ychydig yn troi i siarad Saesneg mewn gwersi Cymraeg.  Nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn cyfrannu'n llafar yn ystod gwersi.  O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn datblygu'u medrau llafar ac mae ansawdd eu mynegiant yn wael.  Mae hyn yn aml yn ganlyniad disgwyliadau isel gan eu hathrawon.

26 Gall llawer o ddisgyblion weithio'n dda yn annibynnol.  Mae'r disgyblion hyn yn dyfnhau'u dysgu drwy ymchwil annibynnol ar gyfer eu cyflwyniad llafar unigol.  Mae meistrolaeth gadarn ar eirfa dechnegol gan lawer o ddisgyblion.

27 Mae medrau darllen effeithiol gan lawer o ddisgyblion.  Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau darllen yn llwyddiannus i gasglu a chyflwyno gwybodaeth at ystod o ddibenion, er enghraifft am ddadleuon o blaid rhoi organau, rhesymau dros fynd i ryfel, a risgiau a manteision gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol.

28 Mae medrau dadansoddi effeithiol gan lawer o ddisgyblion, a gallant ddewis a defnyddio tystiolaeth berthnasol o destunau er mwyn cefnogi'u barnau. Er enghraifft, maent yn golygu testun er mwyn cymharu a chyferbynnu dau ddarn darllen ynglŷn â'r cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos y gallu i gyfiawnhau'u hatebion trwy drafod a chymharu eu datganiadau. Maent yn cynhyrchu ymatebion sy'n cysylltu â'u syniadau datblygol, gan arfarnu diben, effaith, a dibynadwyedd testunau. Mae llawer o fechgyn yn ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiynau byr ac amlddewis yn y fanyleb newydd. Gall yr ychydig o ddisgyblion sydd â medrau dadansoddi lefel uwch gasglu gwahanol haenau ystyr a geir mewn testunau a dehongli bwriad posibl yr awdur. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn deall yn llawn y math o ymateb a fynnir wrth ateb cwestiynau sy'n gofyn iddynt ddadansoddi safbwyntiau gwahanol.

29 Yn gyffredinol, nid yw medrau disgyblion wrth wneud cymhariaeth yn ddigon cryf. Dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n llwyddo i gymharu dau ddarn darllen yn fedrus. Gall y disgyblion hyn nodi'r cyferbyniad rhwng darnau o ran eu diben neu neges, a gallant drafod sut mae'r darnau'n llwyddo i gyfleu eu negeseuon yn effeithiol. Wrth geisio ymateb i dasgau cymharu, mae llawer yn gwneud defnydd addas o strategaethau fel y cofair "tair 'e'", sef 'enwi, enghreifftio ac esbonio'. Fodd bynnag, yn aml, mae disgyblion yn ystyried darnau darllen ar wahân yn hytrach na'u cymharu â'i gilydd.

30 Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Gallant ddefnyddio geirfa eang yn effeithiol ac ysgrifennu'n gywir ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd drwy amrywio'u hiaith yn bwrpasol at ddibenion amrywiol, er enghraifft cyfoethogi paragraff agoriadol a oedd yn disgrifio 'sgwat' a mireinio dechrau erthygl ar ryfel. Mae llawer o ddisgyblion yn atalnodi'n gywir ac yn strwythuro brawddegau a pharagraffau yn rhesymegol. Mae mwyafrif yn datblygu gafael gref ar yr iaith sy'n eu galluogi i ysgrifennu mewn amrywiaeth o arddulliau ac at ddibenion gwahanol. Mae dealltwriaeth dda o gystrawen naturiol yr iaith gan leiafrif o ddisgyblion. Defnyddiant eirfa arbrofol, soffistigedig a heriol wrth ysgrifennu mewn ystod o gyfryngau.

31 Ceir camgymeriadau sillafu sylfaenol yng ngwaith lleiafrif o ddisgyblion. Mae camgymeriadau cyffredin yn cynnwys methu defnyddio treiglad meddal ar ôl arddodiad, rhedeg arddodiaid yn anghywir, dewis cenedl enwau yn anghywir, cyfieithu'n llythrennol o'r Saesneg, a'r gwahaniaeth rhwng 'ei' ac 'eu'. Mae diffyg collnod yn gyffredin hefyd, fel 'or', 'ir', 'maer', 'rwyn', 'hin'. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gallu trosglwyddo'u dealltwriaeth o reolau gramadegol/ieithyddol i'w gwaith ysgrifenedig wrth ysgrifennu'n annibynnol. Nid yw llawer yn gallu cyrraedd y bandiau marcio uwch mewn cwestiynau arholiad am nad yw eu hiaith yn ddigon cywir ac mae eu geirfa'n rhy gul. Mae hyn yn cyfyngu eu gallu i gyfleu ystyr benodol ac ysgrifennu'n gadarn.

### Mathemateg a mathemateg-rhifedd

32 Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau pen ac ysgrifenedig yn effeithlon i ddatrys ystod eang o broblemau. Mae eu dealltwriaeth o gysyniadau fel ffracsiynau, canrannau, degolion a chymhareb yn sicr. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu'u dealltwriaeth o waith mwy cymhleth, er enghraifft wrth astudio testunau

fel adlog, cymesuredd a chyfrifo gwerth gwreiddiol eitem ar ôl newid canran. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhif yn ddigon da i gyfiawnhau a phrofi'u dulliau a'u canlyniadau. Er enghraifft, nid ydynt yn dechrau drwy ddefnyddio strategaethau gwirio syml i amcangyfrif eu hatebion, nac i arfarnu a yw eu cyfrifiadau yn cynhyrchu atebion synhwyrol. Yn aml, mae'r disgyblion hyn yn gwneud defnydd diangen o gyfrifiannell ac yn derbyn ei bod yn rhaid bod yr ateb a ddangosir yn gywir.

33 Nid oes medrau rhif sylfaenol sicr gan ychydig o ddisgyblion. Mae'r disgyblion hyn yn cael anhawster gyda thasgau mathemategol elfennol fel cyfrif mewn lluosrifau 8, tynnu rhif o 200 neu gyfrif 30% o gyfanswm. O ganlyniad, nid oes hyder gan y disgyblion hyn yn eu gallu mewn mathemateg a gwnânt gynnydd gwael yn ystod gwersi.

34 Mae gafael cadarn ar algebra gan fwyafrif o ddisgyblion, ac maent yn datrys hafaliadau ac yn trin mynegiadau algebraidd yn hyderus. Maent yn adeiladu'n effeithiol ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i gymhwyso'u medrau mewn algebra i gyd-destunau eraill. Er enghraifft, wrth ddefnyddio Theorem Pythagoras, maent yn ad-drefnu'r hafaliad i gyfrif hydoedd ochrau coll mewn trionglau yn llwyddiannus.

35 Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio ystod o fedrau trin data yn gymwys. Gall y disgyblion hyn ddehongli siartiau a graffiau i nodi ac esbonio tueddiadau. Defnyddiant y gweithdrefnau cywir i ddod o hyd i'r canolrif a'r amrediad rhyngchwartel o ddiagram amlder cronnus. Maent yn datblygu ac yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau.

36 Defnyddir amrywiaeth o strategaethau datrys problemau gan y mwyafrif o ddisgyblion i'w helpu i ateb problemau mewn cyd-destunau gwahanol. Er enghraifft, maent yn defnyddio gridiau rhifedd neu gofeiriau fel RUCSAC (read, underline, choose method, solve, answer, check) i'w harwain trwy gyfres o gamau. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn fwy llwyddiannus pan fydd y cwestiynau datrys problemau ar ddiwedd yr uned waith mathemateg fel eu bod yn gwybod pa gysyniadau a dulliau i'w defnyddio. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau dosbarth ynglŷn â'r dulliau y maent yn eu defnyddio, ac maent yn cydnabod y gellir mynd i'r afael â chwestiynau gan ddefnyddio dulliau gwahanol yn aml.

37 Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol dros gyfnod. Mae'r disgyblion hyn yn ffynnu ar sail ymateb i dasgau datrys problemau sy'n darparu lefel her addas o uchel. Maent yn gwneud cysylltiadau yn gyflym rhwng testunau ac yn defnyddio'u medrau mathemategol yn systematig i ddatrys problemau aml-gam neu'r rheini sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt addasu'u dull. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn cyfiawnhau ac yn profi'u canlyniadau gyda rhesymeg fathemategol gryf, ac mae hyn yn eu helpu i wneud cynnydd da yn gyson tuag at ddatblygu medrau datrys problemau mwy datblygedig. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth fathemategol yn hyblyg i adnabod y cysyniadau, y medrau a'r prosesau y gallant eu defnyddio i'w helpu i ddatrys y broblem. Pan ddônt ar draws anawsterau, maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau fel llunio diagram neu symleiddio'r broblem er mwyn gwneud cynnydd pellach. Wrth iddynt weithio drwy'r broblem, mae'r disgyblion hyn yn monitro'u cynnydd eu hunain, gan fyfyrio ar y dulliau a ddefnyddiwyd ac arfarnu'u gwaith yn feirniadol. Maent yn barod i wneud defnydd effeithiol o

dechnegau profi a methu, ac yn croesawu'r cyfleoedd a ddaw yn sgil gwneud camgymeriadau i'w helpu i ddileu camsyniadau. Mae'r disgyblion hyn yn mynd i'r afael â phroblemau yn hyderus, ac mae'r gallu ganddynt i feddwl a gweithio'n annibynnol.

38 Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cael anhawster gyda datrys problemau. Yn aml, mae'r disgyblion hyn yn cynnal gweithdrefnau mathemategol a rhifol yn briodol trwy ddysgu â chymorth. Fodd bynnag, maent yn ei chael hi'n anodd meddwl trwy bethau drostynt eu hunain wrth ddatrys problemau, gan nad oes dealltwriaeth sicr ganddynt o gysyniadau, perthnasoedd a gweithrediadau mathemategol sylfaenol. Mae'r disgyblion hyn yn ei chael hi'n anodd nodi'r strategaethau priodol sydd eu hangen i ddatrys problemau sydd wedi'u gosod mewn cyd-destunau go iawn. Y rheswm am hyn yn aml yw mai cyfleoedd cyfyngedig a roddir iddynt i ymarfer y medrau hyn.

39 Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi'u syniadau yn glir, gan ddefnyddio'r termau pwnc cywir wrth weithio mewn grwpiau bach neu gyfranogi mewn trafodaethau dosbarth. Mae'r disgyblion hyn yn arddangos medrau arfarnol da a gallant roi cyfiawnhad dros eu hymatebion. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn datblygu'u medrau cyfathrebu a meddwl yn ddigon da. Mae eu cyfraniad at drafodaethau'r ystafell ddosbarth yn gyfyngedig, ac maent yn ei chael yn anodd cyfiawnhau eu syniadau neu gyfleu eu meddyliau yn glir.

40 Mae llawer o ddisgyblion yn cyfleu eu syniadau yn rhesymegol yn eu gwaith ysgrifenedig. Gwnânt ddefnydd effeithiol o gonfensiynau mathemategol fel ysgrifennu pob cam ar linell ar wahân i ddangos pob cam a gymerwyd ganddynt. Fodd bynnag, mae cyfathrebu ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion yn wael. Nid yw'r disgyblion hyn yn dilyn confensiynau mathemategol, neu dim ond eu datrysiad terfynol y maent yn ei ysgrifennu, gan hepgor y dull a ddefnyddiwyd ganddynt. Mae disgyblion sy'n gweithio fel hyn yn cael anhawster olrhain ble a sut y maent wedi gwneud camgymeriadau.

### Bagloriaeth Cymru

41 Mewn gwersi Bagloriaeth Cymru, mae llawer o blant yn ysgrifennu gyda chywirdeb technegol addas, ac yn strwythuro'u gwaith ysgrifennu estynedig yn briodol. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau hir yn rhugl ac effeithiol, yn enwedig yn y prosiect unigol, er enghraifft wrth drafod ymatebion gwledydd gwahanol i eithafiaeth. Mae'r disgyblion hyn yn dangos dealltwriaeth soffistigedig o ystod o safbwyntiau ac yn llunio dadleuon ysgrifenedig cytbwys a sensitif a gefnogir gan gyfeirio at ddeunydd ffynhonnell. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gyfeiriadau at ffynonellau tystiolaeth i gefnogi'r pwyntiau y maent yn eu gwneud. Yn aml, nid yw'r disgyblion hyn yn talu digon o sylw i gywirdeb eu sillafu, atalnodi neu ramadeg.

42 Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau darllen sicr. Maent yn dod o hyd i wybodaeth berthnasol o ystod o ffynonellau yn briodol, fel pan fyddant yn nodi barnau gwahanol ynglŷn â gwerth tyrbinau gwynt i gynhyrchu ynni. Mae medrau darllen lefel uwch datblygedig iawn gan ychydig o ddisgyblion. Maent yn defnyddio'r medrau hyn, er enghraifft, i gyfosod y prif ffactorau yn ymwneud â pholisïau llywodraethau gwahanol tuag at gydraddoldeb y rhywiau. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu'u medrau darllen yn llwyddiannus yn eu gwersi Bagloriaeth

Cymru. Nid ydynt yn dysgu sut i nodi gwybodaeth allweddol yn ddigon da wrth ddadansoddi ffynonellau ysgrifenedig, ac yn aml dim ond amlygu blociau mawr o destun heb ei ddirnad a wnânt.

43 Nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu'u rhifedd yn ddigon da trwy Fagloriaeth Cymru. Dim ond defnydd rywsut-rywsut y maent yn ei wneud o wybodaeth ystadegol, fel copïo ffigurau i dablau syml heb wneud sylwadau ar y data na'i ddehongli. Pan gânt y cyfle, mae lleiafrif o ddisgyblion yn arddangos gafael addas ar rifedd yn eu gwaith her sgiliau. Defnyddiant ddata fel gwybodaeth faethol am ystod o fwydydd gwahanol i lunio graffiau a siartiau addas a chynhyrchu crynodebau priodol o'r wybodaeth allweddol y mae'r data hwn yn ei darparu. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn arddangos medrau mathemategol soffistigedig wrth ddehongli data, er enghraifft wrth arfarnu effeithiolrwydd systemau addysgol gwahanol trwy ddadansoddi perfformiad arholiadau.

44 Ychydig o gynnydd y mae llawer o ddisgyblion yn ei wneud wrth ddatblygu'u medrau TGCh ym Magloriaeth Cymru. Treuliant ormod o amser yn gwneud cyflwyniadau sylfaenol iawn, neu maent yn defnyddio rhaglenni taenlen i gynhyrchu graffiau bar syml, er enghraifft i gynrychioli cyfran yr ymatebion 'ie' a 'na' i holiaduron. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu'u medrau TGCh yn dda mewn gwersi Bagloriaeth Cymru. Mae'r disgyblion hyn yn cynhyrchu cyflwyniadau aml-gyfrwng effeithiol a soffistigedig i gefnogi'u 'byrdwn' yn yr her Fenter, neu'n defnyddio ystod o swyddogaethau taenlen i gefnogi'u dadansoddiad o ddata.

45 Mewn gwersi Bagloriaeth Cymru, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n briodol at weithgareddau trafodaethau dosbarth. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cyfraniadau arbennig o huawdl a meddylgar sy'n ystyried ystod o farnau'n ofalus, er enghraifft, wrth drafod y dadleuon moesol o blaid ac yn erbyn rhyfel. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau llefaredd yn dda yn eu gwersi her sgiliau. Yn benodol, mae'r disgyblion hyn yn rhannu ac yn datblygu'u syniadau mewn gweithgareddau grŵp rheolaidd.

46 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda, yn enwedig drwy'r gweithgareddau her. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at fedrau fel gwaith tîm, trefniant personol a rheoli amser. Mae'r heriau sgiliau yn effeithiol o ran helpu disgyblion ddatblygu'u hyder trwy weithgareddau fel cyflwyniadau cyhoeddus i bobl fusnes leol a hyfforddi disgyblion iau.

### Colegau addysg bellach

47 Nid oes data cenedlaethol cyhoeddedig ar gyfer cyfraddau llwyddo ailsefyll TGAU a phroffiliau graddau ar gael. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfnerthu'u dysgu o'r ysgol yn dda ac yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu'u medrau. Maent yn gwybod beth sydd angen iddynt ei ddatblygu er mwyn cyflawni'u TGAU ac mae llawer yn gwneud cynnydd priodol wrth baratoi ar gyfer ailsefyll arholiadau.

#### Saesneg iaith

48 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a'u cyfoedion dosbarth. Maent yn cyfranogi'n dda mewn trafodaethau dosbarth ac mewn sgyrsiau un i un gyda chyfoedion. Mae ychydig o ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr sy'n

oedolion mewn dosbarthiadau nos, yn arwain trafodaethau gyda'u cymheiriaid yn hyderus. Maent yn cysylltu testunau â'u profiad eu hunain, fel mewn trafodaethau ynglŷn â defnyddio iaith ddarbwyllol mewn dadleuon yn ymwneud â phrydau coleg. Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn amharod i gyfrannu, ac mae eu medrau llefaredd yn datblygu'n araf o ganlyniad i hynny.

49 Ceir amrywio eang yn ansawdd gwaith ysgrifenedig. Mae llawysgrifen wael gan ychydig o ddysgwyr, a gwnânt gamgymeriadau mynych mewn sillafu ac wrth ddefnyddio rheolau gramadeg syml, fel defnyddio priflythrennau, comas ac atalnodau llawn. Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn ysgrifennu'n ddarllenadwy ac yn gywir yn gyffredinol, yn defnyddio rheolau gramadeg syml yn effeithiol ac yn defnyddio ystod briodol o eirfa. Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn ysgrifennu'n rhugl ac yn gywir, ac yn defnyddio ystod eang o eirfa. Dangosir datblygiad cadarn yn eu medrau ysgrifenedig gan lawer o ddysgwyr wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen. Maent yn datblygu dealltwriaeth well o strategaethau sillafu fel rhannu geiriau a chofeiriau. Defnyddiant strategaethau i nodi a chywiro'u camgymeriadau eu hunain, er enghraifft defnyddio geiriaduron neu gymwysiadau ffôn symudol gyda mwy a mwy o hyder.

50 Mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau tasgau ac ymarferion yn ddyfal a phrydlon mewn gwersi. Maent yn ymgysylltu'n frwd â thasgau, fel ysgrifennu'n ddisgrifiadol neu ddadansoddi testunau er mwyn nodi'r defnydd o iaith ddarbwyllol. Mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau tasgau gwaith cartref yn dda ac yn elwa o'r gweithgareddau estyn a chwestiynau ymarfer arholiadau y mae'r rhain yn eu darparu. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn ymgysylltu'n dda â thasgau mewn gwersi, neu ymdrechion diawydd a wnânt, ac nid yw ychydig yn cwblhau tasgau gwaith cartref yn rheolaidd. O ganlyniad, cynnydd araf mae'r dysgwyr hyn yn ei wneud ac, er enghraifft, maent yn ailadrodd yr un camgymeriadau sillafu a gramadeg dros gyfnod.

### Mathemateg a mathemateg-rhifedd

51 Mewn dosbarthiadau ailsefyll TGAU mathemateg a mathemateg-rhifedd, mae llawer o ddysgwyr yn gwella eu dealltwriaeth a'u gallu i ddefnyddio pedair rheol rhif. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn defnyddio'r un dulliau y maent wedi'u defnyddio mewn ysgolion. Mae'r rhain yn amrywio rhwng ysgolion, felly mae dysgwyr mewn colegau yn cael eu cyflwyno i ddulliau cyfrifo gwahanol yn aml. I ychydig o ddysgwyr, mae hyn yn agor cyfleoedd newydd sy'n rhoi'r medrau iddynt ddatrys problemau yn gywir am y tro cyntaf.

52 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o gyfrifiadau syml yn ymwneud â mesur a siâp, trawsnewidiadau rhwng ffracsiynau a degolion, canrannau, tebygolrwydd ac amcangyfrif. Cymhwysant dechnegau cyfrifo syml a ddangoswyd gan eu hathrawon. Dim ond lleiafrif o ddysgwyr sy'n cyflawni cyfrifiadau mwy cymhleth yn annibynnol, neu'n defnyddio dulliau datrys problemau yn hyderus.

53 Mae llawer o ddysgwyr yn cyflwyno'u cyfrifiadau yn rhesymegol ac yn dangos sut maent wedi gweithio pethau allan. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn dangos camau'r cyfrifiad, neu maent yn neidio'n rhy sydyn at yr ateb terfynol. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i nodi camgymeriadau a gwella eu techneg mewn cyfrifiadau yn y dyfodol. Mae llawer o ddysgwyr yn cyflwyno siartiau a diagramau yn gywir a manwl, er bod ychydig yn dangos llai o ofal.

### Bagloriaeth Cymru

54 Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu’n dda â thasgau sy’n ymwneud â’u diddordeb galwedigaethol a gofynion yr her neu’r prosiect sgiliau. Yn y dosbarthiadau hyn, mae dysgwyr yn datblygu ac yn ymarfer ystod ddefnyddiol o fedrau sy’n ategu’u medrau galwedigaethol. Er enghraifft, mae dysgwyr peirianneg yn defnyddio’r broses ddylunio i ymchwilio, datblygu a chynhyrchu cynhyrchion newydd fel rhan o’u prosiect unigol. Mae dysgwyr trin gwallt a harddwch yn datblygu cynlluniau busnes realistig ar gyfer salonau symudol.

55 Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn cyflawni gweithgareddau sy’n ehangu eu profiad y tu hwnt i’w rhaglenni galwedigaethol arferol. Er enghraifft, mae dysgwyr ar raglen beirianneg uwch yn dangos medrau ymchwilio, cyfosod a chyflwyno datblygedig mewn gweithgaredd yn ymwneud â chyfleoedd bywyd i blant sy’n byw mewn tlodi, ac yn cynhyrchu cyflwyniadau difyr yn gyflym ac yn trafod eu canfyddiadau. Mae dysgwyr trin gwallt a harddwch yn astudio moeseg estyniadau gwallt a’r effaith ar ferched ifanc mewn ardaloedd o’r byd lle cyflenwir y gwallt.

# Agweddau dysgwyr tuag at y cymwysterau newydd a'u hargraffiadau ohonynt

## Ysgolion

### Y cymwysterau TGAU newydd

56 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'u gwersi Saesneg, Cymraeg a mathemateg. Mae llawer ohonynt yn awyddus i wneud yn dda yn y pynciau hyn ac maent yn cynnal lefel uchel o ffocws ar eu gwaith. Mae'r disgyblion hyn yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch tuag at yr athro a'u cyfoedion. Dangosant agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn ymdawelu ac yn mynd i'r afael â'u gwaith yn gyflym. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn ymddieithrio o'u dysgu. Yn aml, mae hyn oherwydd bod y tasgau a gynigir yn ailadroddus neu'n cynnwys lefel amhriodol o her.

57 Mae llawer o ddisgyblion yn gadarnhaol ynglŷn â'r elfen o ddewis a gynigir yn eu cyrsiau Saesneg iaith a Cymraeg iaith i ddewis y testun ar gyfer eu cyflwyniad ymchwil unigol o'r pum thema osodedig fel rhan o Uned 1. Maent yn teimlo'n llawn cymhelliant o ganlyniad i allu dewis testunau sydd o ddiddordeb iddynt.

58 Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi adborth llafar ac ysgrifenedig gan athrawon. Yn gyffredinol, teimlant fod yr adborth hwn yn rhoi arweiniad clir iddynt ar sut i wella eu gwaith, yn enwedig pan fydd wedi'i gysylltu'n benodol â gofynion a thechneg arholiad.

59 Mae mwyafrif o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer eu harholiadau. Mae lleiafrif yn gweld yr ymagwedd at arholiadau yn straen, yn enwedig gyda phwysau sesiynau adolygu ychwanegol. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n ddigon da ar gyfer eu harholiadau. Mae hyn yn arbennig o wir i'r rheini sy'n rhoi cynnig ar eu harholiadau yn gynnar ar ddiwedd Blwyddyn 10 neu ym mis Tachwedd ym Mlwyddyn 11.

60 Mae llawer o ddisgyblion sydd wedi cofrestru i sefyll eu harholiadau TGAU yn gynnar o'r farn ei fod yn gwasgaru llwyth arholiadau ac yn galluogi rhoi ffocws dilynol ar feysydd o wendid. Mae hyn er gwaethaf sefyll hyd at 11 o arholiadau ym Mlwyddyn 10 a llawer o ddisgyblion yn ailsefyll yr holl arholiadau y maent wedi'u sefyll eisoes ar ddiwedd Blwyddyn 11. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion wedi'u cymell i wella'r graddau a enillwyd ganddynt ar eu hymgais gyntaf ac nid ydynt yn ailsefyll arholiadau. Mae tua hanner y disgyblion sy'n ailsefyll arholiadau yn gwella eu deilliannau o un radd o leiaf. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r disgyblion nad ydynt yn ailsefyll eu harholiadau yn yr haf wedi cyrraedd eu potensial llawn o bosibl.

### Cymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru

61 Mae agweddau disgyblion at eu gwersi Bagloriaeth Cymru yn amrywiol iawn ac mae cyswllt agos rhwng hynny â'r statws y mae arweinwyr ysgol yn ei roi i'r cwrs hwn. At ei gilydd, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â'r heriau

sgiliau a'r prosiect unigol. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae agweddau negyddol gan ddisgyblion at y cymhwyster.

62 I lawer o ddisgyblion, yr agwedd fwyaf cadarnhaol ar yr her sgiliau yw bod y gweithgareddau yn darparu profiadau iddynt sy'n wahanol i'r rheiny yng ngweddill eu pynciau, er enghraifft, pan fyddant yn gweithio gyda disgyblion iau neu aelodau'r gymuned leol. Mae'r cyfleoedd hyn yn eu helpu i ddatblygu hyder a medrau cymdeithasol. Yn ystod yr heriau hyn, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rheoli amser, trefniant personol a medrau gwaith tîm. Mae llawer o'r disgyblion sy'n parhau â'u haddysg yn y chweched dosbarth yn yr ysgol neu goleg addysg bellach yn gweld bod cwblhau'u prosiect unigol yn helpu eu paratoi ar gyfer cyrsiau lefel 3 sy'n fwy ymestynnol yn academaidd.

63 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn croesawu'r lefel o ddewis annibynnol a gânt o ran dewis rhai gweithgareddau a thestunau i'w hastudio. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn mwynhau ychydig o agweddau ar eu darpariaeth her sgiliau. Maent yn gweld agweddau ar y cwrs yn ailadroddus, gan fod heriau gwahanol yn cynnwys archwiliadau o fedrau a myfyrdodau personol tebyg. Hefyd, teimlant fod gormod o amser yn cael ei dreulio yn cynllunio ac adolygu gweithgareddau ar draul y gweithgareddau eu hunain.

64 Yn gyffredinol, mae disgyblion yn teimlo bod anghydbwysedd rhwng pwysoliad asesu'r her cymhwyster sgiliau a'r ymchwiliad personol. Y rheswm am hyn yw bod yr ymdrech a'r amser sydd eu hangen i gwblhau'r tair her sgiliau yn fwy nag yn y prosiect unigol.

## Colegau addysg bellach

### Cymwysterau TGAU

65 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n astudio cyrsiau TGAU yn y coleg yn ddysgwyr amser llawn sydd yn astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol eraill hefyd. Mewn llawer o golegau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda o'r modd y mae eu rhaglen TGAU neu cyn-TGAU yn cynorthwyo'u hastudiaethau ehangach. Mae hyn yn cynnwys pam maent mewn grŵp ailsefyll neu cyn-ailsefyll penodol, pa gymhwyster y maent yn gweithio tuag ato, deilliannau eu hasesiad medrau cychwynnol, a'r agweddau y mae angen iddynt ddatblygu.

66 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau ailsefyll TGAU wedi methu ymgeisiau blaenorol i ennill gradd A*-C yn yr ysgol neu yn eu dysgu blaenorol. O ganlyniad, mae diffyg hyder gan lawer ohonynt ar y cychwyn yn eu gallu i wella eu gradd. Mae bron pawb yn gwerthfawrogi'r cyfle i ailsefyll eu harholiadau TGAU ac yn deall gwerth y cymhwyster. Wrth i'w rhaglen astudio barhau, mae llawer o ddysgwyr yn gwella o ran hyder.

67 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau'r profiad o astudio TGAU Saesneg neu TGAU mathemateg yn y coleg. Teimlant eu bod yn cael eu trin fel oedolion, gyda pharch a mwy o ryddid, yn ogystal â mwy o atebolrwydd a chyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel i ddweud wrth athrawon os nad ydynt yn deall, neu i ofyn am esboniad.

68 Mae ychydig o ddysgwyr sydd eisoes wedi ennill gradd A*-C yn yr ysgol yn ailsefyll y cymhwyster i geisio cael gradd uwch, er mwyn, er enghraifft, gallu astudio prif gwrs newydd yn y coleg sydd â meini prawf mynediad uwch neu i roi mynediad iddynt i ystod ehangach o yrfaoedd sy'n mynnu gradd TGAU uwch. Mae llawer o ddysgwyr rhan-amser sy'n oedolion sy'n mynychu dosbarthiadau TGAU min nos yn defnyddio'r cyfle i ennill gradd A*-C, neu i wella eu gradd flaenorol, er mwyn gwella eu rhagolygon gyrfa.

69 Mae patrwm mynychu dosbarthiadau ailsefyll TGAU yn amrywio ar draws colegau. Yn y colegau mwyaf effeithiol, mae dysgwyr yn mynychu dosbarthiadau TGAU ar yr un gyfradd ag y maent yn mynychu'u dosbarthiadau galwedigaethol a dosbarthiadau eraill. Mae'r gyfradd presenoldeb mewn dosbarthiadau ailsefyll TGAU ychydig islaw cyfradd bresenoldeb gyffredinol colegau. Yn ogystal, lle mae dosbarthiadau ailsefyll TGAU mathemateg a Saesneg wedi'u hamserlennu ar yr un diwrnod, mae ychydig o ddysgwyr yn colli diddordeb ac mae eu presenoldeb yn gostwng.

70 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth, ac yn cynnal eu diddordeb trwy gydol y wers. Maent yn rhyngweithio'n dda â'u hathrawon a'u cyfoedion. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, yn enwedig dosbarthiadau hwy o ran amser, mae meddwl y dysgwyr yn crwydro ac mae lleiafrif yn mynd yn oddefol neu mae rhywbeth arall yn tynnu'u sylw.

71 Mae llawer o ddysgwyr yn cyrraedd wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu dosbarthiadau, gydag offer priodol a gyda'u nodiadau o ddosbarthiadau blaenorol. Nid yw ychydig o ddysgwyr, ac mewn ychydig o golegau lleiafrif o ddysgwyr, yn dod â'u nodiadau o ddosbarthiadau blaenorol, neu maent yn methu dod ag offer safonol i'r wers. Mae hyn yn rhwystro'u gallu i fyfyrio ar waith blaenorol, i adolygu sylwadau asesu neu i gyfnerthu'u dysgu yn llawn o un wythnos i'r nesaf.

72 Lle mae colegau wedi amserlennu dysgwyr o bynciau tebyg neu gefndiroedd galwedigaethol tebyg i astudio yn yr un dosbarth, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau'r cyfle i astudio gyda'u cyfoedion a datblygu'u medrau gan ddefnyddio rhywfaint o derminoleg pwnc eu pynciau galwedigaethol.

## Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

73 Mae llawer o ddysgwyr sy'n astudio Bagloriaeth Cymru yn llawn cymhelliant i gwblhau'u rhaglenni ac maent yn disgrifio manteision posibl astudio'r cymhwyster, er enghraifft datblygu medrau menter, cynllunio ac ymchwilio. Mae dysgwyr trin gwallt a harddwch yn gwerthfawrogi'r gweithgareddau cynllunio busnes a wnânt, ac maent yn gweld eu bod yn berthnasol i'w gyrfaoedd yn y dyfodol. Er bod llawer o ddysgwyr yn cydnabod gwerth posibl medrau y maent yn eu datblygu, dim ond lleiafrif fyddai'n dilyn y cymhwyster o ddewis pe na bai'n rhan orfodol o'u rhaglen.

74 Mae lleiafrif o ddysgwyr mewn ychydig o golegau o dan yr argraff anghywir fod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel Genedlaethol (lefel 2) yn eu helpu'n uniongyrchol â cheisiadau i'r brifysgol. Er bod y cymhwyster ar lefel 2 efallai'n datblygu medrau y mae prifysgolion yn eu gwerthfawrogi, nid oes pwyntiau UCAS ynghlwm wrtho y gellir eu defnyddio yn y broses ymgeisio. Mae hyn yn aml yn deillio o gyngor neu arweiniad gwael gan y coleg i ddysgwyr ar statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru mewn addysg uwch.

# Profiadau dysgu

## Newidiadau i'r cwricwlwm i fodloni'r manylebau TGAU newydd

### Ysgolion

75 Aeth y rhan fwyaf o ysgolion ati i ailysgrifennu cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 3 ym mhob pwnc, i ymateb i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd (Llywodraeth Cymru, 2013). Yn ddiweddar, mae'r ysgolion hyn wedi addasu'r cynlluniau hyn i baratoi disgyblion ar gyfer y cwestiynau 'arddull PISA' a geir yn y manylebau TGAU newydd. Mae llawer o adrannau Cymraeg, ac ychydig o adrannau Saesneg, wedi cyflwyno cynlluniau gwaith sy'n canolbwyntio'n gryfach ar yr agweddau technegol ar bob iaith a gramadeg. Mae ychydig o ysgolion wedi addasu cynlluniau gwaith yn helaeth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fel bod cyfleoedd i ddatblygu medrau datrys problemau disgyblion yn adeiladu'n gynyddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac ar draws holl feysydd perthnasol y cwricwlwm.

76 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cynyddu'r dyraniad amserlen cwricwlwm ar gyfer mathemateg a rhifedd yng nghyfnod allweddol 4 o ryw 12% i ryw 16%. Mae hyn er mwyn darparu ar gyfer y cynnwys pwnc ychwanegol ar gyfer dwy fanyleb TGAU ac i roi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau datrys problemau. Mae lleiafrif o ysgolion wedi cynyddu amser cwricwlwm hefyd ar gyfer mathemateg a rhifedd yng nghyfnod allweddol 3 o ryw 12% i ryw 14%. Diben y cynnydd hwn yw darparu mwy o amser i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau rhifedd a medrau datrys problemau disgyblion pan fyddant yn iau. Mewn ychydig o ysgolion, mae dyraniad ychwanegol ar yr amserlen wedi arwain at gyfran fwy o athrawon nad ydynt yn arbenigwyr yn addysgu mathemateg yng nghyfnod allweddol 3. Yn gyffredinol, nid yw ysgolion wedi newid eu dyraniad ar gyfer Saesneg neu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3 na chyfnod allweddol 4, ac yn nodweddiadol mae hyn yn amrywio rhwng 12% a 16%.

77 Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o adrannau Saesneg, Cymraeg a mathemateg wedi cynhyrchu cynlluniau gwaith addas ar gyfer y manylebau ac mae llawer yn parhau i ddatblygu'r rhain yn briodol. Yn gyffredinol, mae adrannau Cymraeg wedi addasu i'r newidiadau yn fwy hwylus nag adrannau Saesneg neu fathemateg. Mae hyn oherwydd eu bod yn fwy cyfarwydd â gweithdrefnau gweinyddol penodol, er enghraifft o ran cofnodi ymatebion llafar disgyblion ar gyfer yr asesiad rheoledig ac oherwydd ansawdd y cymorth gan swyddogion pwnc CBAC a'r consortia. Fodd bynnag, mae pob adran wedi gweld addasu i'r manylebau newydd yn heriol. Ansicrwydd ynghylch y gofynion ar gyfer ffiniau graddau gwahanol, ac adrannau yn ymgyfarwyddo â delio ag un bwrdd arholi oedd i gyfrif am hyn yn bennaf. Mae llawer o ysgolion wedi defnyddio cynlluniau gwaith derbyniol iawn y mae'r consortia rhanbarthol wedi'u paratoi fel mannau cychwyn, gan eu teilwra i fodloni anghenion eu hysgolion unigol.

78 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cadw eu cynnig i ddisgyblion ddilyn Saesneg llenyddiaeth a Chymraeg llenyddiaeth. Mae ychydig yn cofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau yn y cyrsiau hyn ym Mlwyddyn 10. Mae llawer o ysgolion yn addysgu'r

manylebau llenyddiaeth ac iaith ochr yn ochr â'i gilydd, gan wneud defnydd effeithiol o'r cyd-destunau a gynigir gan y testunau.  Mae bron pob ysgol yn cyflawni'r rhwymedigaeth statudol i addysgu llenyddiaeth fel rhan o'r manylebau iaith.  Fodd bynnag, mae pwysau o du cyfundrefnau atebolrwydd yn seiliedig ar fesurau perfformiad wedi arwain llawer i gofrestru'r disgyblion mwy abl yn bennaf ar gyfer arholiadau llenyddiaeth.  Mae hyn yn rhyddhau amser i ganolbwyntio'n gryfach ar y medrau sydd eu hangen i berfformio'n dda yn yr arholiadau iaith.

79 Yn yr ysgolion hyn, mae'r holl ddisgyblion yn dilyn y cwrs llenyddiaeth i ryw raddau.  Fodd bynnag, mae ysgolion yn cofrestru cyfran amrywiol o'r disgyblion hyn ar gyfer yr arholiad llenyddiaeth, gan ddibynnu ar b'un a ydynt yn debygol o ennill gradd C neu beidio.

80 Mewn adrannau mathemateg, y prif newidiadau yw darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau datrys problemau ar gyfer y TGAU rhifedd newydd, ac i ddisgyblion gael dealltwriaeth ddyfnach o gysyniadau mathemateg.  Mewn ychydig o ysgolion, ceir arfer arbennig o gryf.  Mae'r ysgolion hyn wedi addasu cynlluniau gwaith yn helaeth yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fel bod cyfleoedd i ddatblygu medrau datrys problemau disgyblion yn adeiladu'n gynyddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac ar draws holl feysydd y cwricwlwm.  Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys darparu'r cyfle i ddisgyblion roi cynnig ar y strategaethau canlynol:

- chwilio am sbardunau fel fformwla neu derm mathemategol sy'n rhoi man cychwyn i ddisgyblion
- defnyddio portread gweledol fel diagramau neu fodelau bar (cynrychiolaethau darluniol o broblemau neu gysyniadau)
- symleiddio problem, ac yna trosglwyddo'r dull a ddefnyddiwyd o ddatrys y broblem symlach i'r cwestiwn anoddach
- rhoi cynnig ar dasgau lle nad oes dull amlwg uniongyrchol
- cwblhau tasgau lle ceir llawer o wybodaeth a dim cwestiwn, lle mynnir bod disgyblion yn datgan pa ddefnydd y gallent ei wneud o'r wybodaeth hon
- trafod ateb sydd wedi'i baratoi'n barod, a gofyn iddynt ddadansoddi'n feirniadol y dull a ddefnyddiwyd, a chwilio am ddull amgen a dulliau mwy effeithlon

81 Mae llawer o ysgolion wedi cyflwyno cyfleoedd ychwanegol i gefnogi datblygu'r medrau y mae eu hangen ar ddisgyblion i lwyddo mewn Saesneg iaith, Cymraeg iaith, mathemateg a mathemateg-rhifedd.  Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio amser mewn grwpiau cofrestru i fynd i'r afael â gwendidau penodol disgyblion ac, yn fwyaf cyffredin, sesiynau adolygu ychwanegol, gan gynnwys yn ystod gwyliau'r ysgol.  Mae'r arfer hon yn aml yn rhoi pwysau diangen ar staff a disgyblion gan fod y ddau yn colli cyfran o'u hamser gwyliau.

82 Er bod manylebau TGAU union yr un fath bron mewn Cymraeg iaith a Saesneg iaith, dim ond ychydig iawn o adrannau Saesneg a Chymraeg sydd wedi gweithio gyda'i gilydd i gynllunio'u cynlluniau gwaith newydd a manteisio ar gyfleoedd i drafod methodoleg effeithiol i ddysgu elfennau cyffredin y ddau bwnc.

**Astudiaeth achos 1: Ysgol Uwchradd Caerdydd – Cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer medrau llythrennedd**

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 18 oed yw Ysgol Uwchradd Caerdydd, yng ngogledd dinas Caerdydd. Mae 1,640 o ddisgyblion ar y gofrestr; mae rhyw 7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac mae anghenion addysgol arbennig gan ryw 14%.

Mae cynllunio'r cwricwlwm yn ofalus yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 wedi arwain at allu'r adran Saesneg i adnabod, deall, ymyrryd a datblygu medrau llythrennedd yn ofalus ar draws yr ystod galluoedd.

Mae gan yr holl ddosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 3 awr amserlenedig i ddatblygu'u darllen gyda meddalwedd ddynodedig bob pythefnos. Gosodir y dosbarthiadau yn ôl bandiau gallu, fel y gall y dosbarthiadau gallu is dderbyn tair awr o gymorth llythrennedd penodol. Mae'r gwersi hyn yn rhan o ddyraniad Saesneg y disgyblion felly maent yn anamlwg i'r boblogaeth gyffredinol. Addysgir cyfnod allweddol 3 i gyd fesul hanner grŵp blwyddyn ar y tro fel bod yr hyblygrwydd gan staff i symud disgyblion i mewn i ddosbarthiadau eraill fel y bo'r angen.

Yng nghyfnod allweddol 4, addysgir disgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 fesul hanner grŵp blwyddyn ar y tro er mwyn sicrhau hyblygrwydd heb effeithio ar weddill y cwricwlwm. Hefyd, mae'r gwersi Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 wedi'u hamserlennu cefn wrth gefn fel y gall yr adrannau, pan fydd angen, 'fenthyg' amser oddi wrth ei gilydd er mwyn cwblhau'r ymyriad carfan gyfan, fel asesiadau rheoledig a ffug arholiadau.

Addysgir TGAU iaith a llenyddiaeth ar wahân i'r holl ddisgyblion yn yr ysgol. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i staff yn eu hamserlenni fel y gall y staff mwyaf profiadol addysgu mwy nag un dosbarth mewn TGAU. Mae'r strategaeth hon yn darparu mwy o eglurder a mwy o gydbwysedd rhwng addysgu'r ddau gymhwyster TGAU.

Ceir ffocws cryf ar ddatblygu arfer addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae cynlluniau gwaith yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o'r ansawdd a ddisgwylir ar gyfer cyrraedd y lefelau uchaf yn dda iawn. Mae athrawon yn ymdrechu i roi adborth defnyddiol i ddisgyblion sy'n eu galluogi i ddatblygu a gwneud cynnydd. Caiff cynlluniau gwaith eu haddasu er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn lefel briodol o her.

Yn 2017, yng nghyfnod allweddol 4, enillodd 91% o ddisgyblion radd C ac uwch mewn Saesneg iaith, ac enillodd 23.9 % raddau A*-A.

Cyflawnodd disgyblion yn uchel iawn hefyd yn eu TGAU Saesneg llenyddiaeth, gyda 95% yn ennill graddau A*-C a 36.1% yn ennill graddau A*-A (Llywodraeth Cymru, 2017b).

**Astudiaeth achos 2: Ysgol Bryn Elian – Cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer datrys problemau**

Ysgol sefydledig gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11-18 oed yw Ysgol Bryn Elian, yn awdurdod lleol Conwy. Mae 982 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 170 yn y chweched dosbarth. Ar gyfartaledd, mae rhyw 16% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae bron pob disgybl yn siarad Saesneg fel ei iaith gyntaf.

Gweledigaeth yr adran yw i bob disgybl fwynhau mathemateg a gallu llwyddo.

Mae'r adran yn darparu amser i ddisgyblion ddeall cysyniadau ac mae'n cynllunio gwersi amrywiol gyda gweithgareddau sy'n sicrhau dyfnder dysgu priodol ar gyfer pob gallu. Mae strategaethau ac arfer datrys problemau yn ffurfio cyfran sylweddol o amser addysgu, fel bod disgyblion yn gallu cysylltu testunau a chymhwyso medrau gwahanol o fewn pob problem.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r adran wedi datblygu cynlluniau gwaith ar gyfer pob blwyddyn lle mae disgyblion yn symud ar gyflymer sy'n fwyaf addas i'w galluoedd a'u cynnydd. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn symud ymlaen i'r modiwl nesaf pan fydd dealltwriaeth gadarn ganddynt a phan fyddant yn gallu cymhwyso'r medrau testun yn hyderus mewn ystod eang o gyd-destunau. Mae'r adran yn rhoi pwyslais cryf ar fwynhad ac ymgysylltiad disgyblion. Maent yn ceisio meithrin hyder ar bob cyfle.

Fe wnaeth yr adran rannu meysydd llafur TGAU mathemateg a mathemateg-rhifedd yn raddau ac yna testunau, er mwyn ffurfio cynllun gwaith sy'n herio'r disgyblion yn gynyddol. Croesgyfeiriwyd hyn â'r lefelau cyfnod allweddol 3 er mwyn canolbwyntio ar fedrau perthnasol o ddechrau Blwyddyn 7. Mae staff yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau meddwl lefel uwch disgyblion, fel ymchwilio i gyd-destunau anghyfarwydd yn systematig, nodi ac arfarnu camgymeriadau a chamsyniadau, a phrofi canlyniadau gydag ymresymiad mathemategol dilys.

Mae pob modiwl yn dechrau gyda 'rhagbrawf' sy'n rhoi sail i'r athro gynllunio cyfres o wersi. Pan fydd yr athro o'r farn fod pob disgybl yn deall y gwaith o fewn y modiwl yn dda, rhoddir y cyfle iddynt arddangos eu medrau gyda 'phrawf ymadael'. Dim ond pan fydd yr holl ddisgyblion yn cyflawni lefel uchel yn y prawf ymadael y bydd y dosbarth yn symud ymlaen i'r modiwl nesaf.

Mewn gwersi, ceir pwyslais sylweddol ar drefniant mathemategol, cyfathrebu ac ysgrifennu. Mae hyn yn gwneud i ddisgyblion feddwl yn ofalus am y gwaith y maent yn ei gyflwyno, ac yn sicrhau bod camau a dulliau cywir wedi'u hymgorffori o oedran cynnar. Disgwylir i ddisgyblion ddangos eu holl waith gweithio allan, ac felly datblygu eu gallu i drafod a chyfiawnhau eu dull.

Y disgyblion sydd ym Mlwyddyn 7 ar hyn o bryd yw'r garfan gyntaf i ddefnyddio'r cynllun gwaith hyblyg newydd, ac maent eisoes yn dangos

bod dealltwriaeth ddyfnach o'r pwnc yn eu galluogi i gymhwyso nifer o fedrau mewn problemau aml-gam.  Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gamsyniadau cyffredin, a gallant gyflwyno'u gwaith mewn modd trefnus, strwythuredig a chywir.

### Newidiadau i'r cwricwlwm i ymateb i fanyleb newydd Bagloriaeth Cymru

83 Mae'r ffordd y mae ysgolion uwchradd yn trefnu'u darpariaeth Bagloriaeth Cymru yn amrywio'n eang.  Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dewis cyflwyno gwersi Bagloriaeth Cymru ar wahân, ac fel arfer yn darparu rhwng awr ac awr a hanner o wersi yr wythnos.  Mae ychydig iawn o ysgolion yn cynnig hyd at ddwy awr a hanner yr wythnos.  Yn gyffredinol, mae disgyblion yn fwy cadarnhaol ynglŷn â'u darpariaeth Bagloriaeth Cymru ac yn cyflawni'n well pan fydd ganddynt fwy o amser cwricwlwm i gwblhau eu gwaith.

84 Mewn llawer o ysgolion, nid oes digon o gynllunio manwl i ymestyn y disgyblion mwy abl.  Yn yr ychydig ysgolion sy'n gwneud hyn yn llwyddiannus, mae disgwyliadau uchel iawn gan athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni.  Maent yn cynnig cymorth da i ddisgyblion sy'n galluogi'r disgyblion hyn i ddeall beth a fynnir ganddynt i gyrraedd y lefelau cyrhaeddiad uchaf un.

**Astudiaeth achos 3:  Ysgol Gyfun Gwŷr – Ymestyn y disgyblion mwy abl yng nghymhwyster Bagloriaeth Cymru**

Ysgol uwchradd ddynodedig Gymraeg yw Ysgol Gyfun Gŵyr ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 19 oed.  Mae wedi'i lleoli yng Nhre-gŵyr ac yn gwasanaethu gorllewin Abertawe.  Mae 850 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 5% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Daw traean o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg.

Mae'r ysgol yn cynnig lefel uchel iawn o her i ddisgyblion mwy abl.  Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cyrraedd y lefelau cyrhaeddiad uchaf un trwy ddarparu enghreifftiau manwl a chymorth wedi'i deilwra i ddatblygu'u medrau.

Caiff disgyblion cryn ryddid gan yr ysgol o ran dewis eu hymchwiliad personol, ac mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar eu cymhelliant.  Anogir disgyblion mwy abl i gysylltu'u cwestiynau â dewisiadau gyrfa yn y dyfodol.  Mae hyn yn cynyddu'u brwdfrydedd a'u cymhelliant personol.  Mae'r adran yn arwain disgyblion i archwilio ffynonellau ymchwil mwy cymhleth.  Mae'r ysgol yn cynnig llawer iawn o gymorth defnyddiol i ddisgyblion pan fyddant yn cwblhau'u hymchwiliadau, fel cyflwyniadau powerpoint, gan esbonio sut i ddefnyddio'r swyddogaethau mwy soffistigedig mewn taenlenni, cyfeirnodi eu gwaith yn gywir a dehongli data o graffiau a siartiau.

Addysgir system gyfeirio Harvard trwy gyfres o wersi sy'n amlygu un dull o gyfeirnodi.  Dywedir yn glir wrth ddysgwyr mwy abl mai dim ond un enghraifft yw hon, a bod dulliau eraill yn dderbyniol hefyd wrth ysgrifennu traethawd ymchwil estynedig.

> Mae cynlluniau gwaith yn cynorthwyo dealltwriaeth disgyblion yn dda iawn o'r ansawdd a ddisgwylir ar gyfer cyrraedd y lefelau uchel. Mae athrawon yn darparu enghreifftiau soffistigedig o fathau o holiaduron ac yn cynorthwyo disgyblion yn uniongyrchol wrth osod y siartiau hyn mewn taenlenni. Caiff disgyblion eu harwain tuag at ffyrdd o gasglu setiau data perthnasol gan sefydliadau fel y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a chânt eu haddysgu i gwestiynu dilysrwydd defnyddio set ddata benodol oni bai y gall gefnogi dadl.
>
> Mae ffrwyth llafur y cyfryw brosesau wedi arwain at ddeunydd darllen hynod soffistigedig gydag ymateb unigol eithriadol.
>
> Caiff y ddarpariaeth effaith uniongyrchol ar lefel y medrau dadansoddol a gaffaelir gan ddisgyblion mwy abl. Yn 2017, enillodd 19% o ddisgyblion radd A* neu A yn gyffredinol yn y Dystysgrif Her Sgiliau (Llywodraeth Cymru, 2017b).

85 Dim ond ychydig iawn o ysgolion sy'n cyflwyno'r her sgiliau trwy ddull trawsgwricwlaidd. Yn yr ysgolion hyn, caiff disgyblion eu paratoi ar gyfer yr heriau trwy weithgareddau, er enghraifft mewn gwersi addysg grefyddol neu wersi addysg bersonol a chymdeithasol. Mae disgyblion yn cwblhau'u prosiect unigol drwy ymchwilio i destun yn gysylltiedig ag astudio un o'u cyrsiau arholiad. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu'u medrau ehangach tra'n dyfnhau eu dealltwriaeth o un o'r pynciau y maent wedi dewis ei astudio.

86 Mae lleiafrif o ysgolion wedi cyflwyno fersiwn cyfnod allweddol 3 o Fagloriaeth Cymru, a elwir yn aml yn 'Mini-Bacc'. Ymgymerir â hwn ym Mlwyddyn 9 fel arfer, er bod ychydig iawn o ysgolion yn dechrau cyflwyno hwn ar draws y cyfnod allweddol cyfan. Mewn llawer o achosion, mae'r dull hwn yn ddefnyddiol o ran datblygu medrau disgyblion, yn enwedig cynllunio, trefnu a gwaith tîm, ac mae o gymorth o ran eu paratoi ar gyfer yr her sgiliau yng nghyfnod allweddol 4. Mewn lleiafrif o achosion, cyfyngir ar effaith y dull hwn gan ddiffygion mewn cynllunio neu fod amser annigonol wedi'i ddyrannu i'r gweithgareddau.

87 Mae llawer o ysgolion yn neilltuo cyfres o ddiwrnodau llawn, yn nhymor yr haf fel arfer, i gyflwyno gweithgareddau'r her sgiliau. Yn fwyaf cyffredin, mae ysgolion yn cynllunio rhwng dau a phedwar o'r diwrnodau hyn, er bod ychydig iawn yn trefnu hyd at 10 diwrnod. Fel arfer, defnyddir y diwrnodau hyn ar gyfer y gweithgareddau terfynol, asesedig yn yr her Fenter a her y Gymuned. Mae'r dull hwn yn rhoi digon o amser i ddisgyblion ymgymryd â gweithgareddau ystyrlon. Yn ogystal, mae'n helpu ysgolion i gynllunio i ddefnyddio arbenigedd partneriaid, fel aelodau'r gymuned fusnes leol.

88 Mae'r mwyafrif o ysgolion yn llwyddiannus o ran sicrhau bod eu darpariaeth Bagloriaeth Cymru yn canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd disgyblion. Yn benodol, mae'r ysgolion hyn yn rhoi cyngor defnyddiol i ddisgyblion ar sut i strwythuro'u hysgrifennu estynedig wrth gwblhau'r prosiect unigol. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn rhoi digon o sylw i gywirdeb technegol ysgrifennu disgyblion. Mae llawer o ysgolion yn datblygu medrau darllen disgyblion yn dda, er enghraifft trwy ddatblygu'u gallu i ddadansoddi ffynonellau yn yr her Dinasyddiaeth Fyd-eang.

89 Mae ychydig o ysgolion yn sicrhau bod medrau rhifedd disgyblion yn cael eu datblygu'n dda trwy Fagloriaeth Cymru. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn arwain ac yn cynorthwyo disgyblion i ddefnyddio ystod o ddulliau mathemategol i ddadansoddi, cyfosod a chrynhoi data rhifiadol, yn enwedig fel rhan o'u prosiect unigol. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Y rheswm am hyn yn aml yw nad yw'r profiad a'r arbenigedd angenrheidiol mewn mathemateg gan athrawon sy'n gysylltiedig â chynllunio a chyflwyno'r cwrs.

90 Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn llwyddo i sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfle i ddefnyddio offer TGCh i gefnogi'u cynnydd ym Magloriaeth Cymru. Mae hyn yn helpu disgyblion, er enghraifft, i ymchwilio ar-lein ar gyfer eu prosiect unigol. Mae ychydig o ysgolion yn effeithiol wrth ddatblygu medrau TGCh disgyblion drwy eu darpariaeth Bagloriaeth Cymru. Yn yr ysgolion hyn, caiff plant eu hannog a'u cefnogi, er enghraifft i ddefnyddio swyddogaethau taenlenni datblygedig i ddadansoddi data neu ddefnyddio meddalwedd amlgyfrwng yn eu cyflwyniadau her. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw athrawon yn ymestyn defnydd disgyblion o TGCh ymhellach na phrosesu geiriau sylfaenol a chyflwyniadau syml. Diffyg arbenigedd yr athrawon dan sylw mewn TGCh yw'r rheswm am hyn yn aml.

91 Er gwaetha'r ffaith nad yw uned Cymru, Ewrop a'r Byd yn rhan o'r cymhwyster mwyach, mae'r mwyafrif o ysgolion yn sicrhau bod pwyslais cryf ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru wrth iddynt gyflwyno'r cwrs. Er enghraifft, mae'r ysgolion hyn yn sicrhau bod prosiect unigol disgyblion yn canolbwyntio'n briodol ar agweddau ar fywyd Cymru. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oes fawr o ystyriaeth yn cael ei rhoi i le Cymru yn y byd nac i ddiwylliant Cymru.

### Effaith y cymwysterau newydd a mesurau perfformiad ar gwricwlwm ehangach ysgolion

92 Er bod rhyddid i ysgolion benderfynu sut maent yn cynllunio a chyflwyno cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4, mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar eu cynnig cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno'r cymhwyster ychwanegol mathemateg-rhifedd, cynnwys Bagloriaeth Cymru mewn mesurau perfformiad o 2018 a'r ffocws ar gymwysterau TGAU mewn Saesneg iaith a Cymraeg iaith yn y prif fesurau perfformiad. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at ysgolion yn cynyddu amser cwricwlwm ar gyfer mathemateg a mathemateg-rhifedd, a Bagloriaeth Cymru. I hwyluso'r newid hwn, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi lleihau nifer y cyrsiau dewisol sydd ar gael i ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi lleihau nifer yr opsiynau o bedwar i dri, a dim ond dau opsiwn y mae ychydig iawn yn ei gynnig. Mewn llawer o achosion, mae pynciau a oedd yn cael eu cynnig yn flaenorol mewn mwy nag un bloc dewisiadau yn cael eu cynnig mewn un bloc yn unig erbyn hyn. Dywed bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn eu bod wedi cynnal eu cynnig i ddisgyblion ddilyn TGAU Saesneg llenyddiaeth neu Cymraeg llenyddiaeth. Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion sy'n sefyll Saesneg llenyddiaeth a Cymraeg llenyddiaeth wedi gostwng ryw 10 pwynt canran er 2012 (gweler yr atodiad, ffigur 9). Hefyd, bu gostyngiadau nodedig yn nifer y disgyblion sy'n astudio pynciau eraill mewn TGAU, yn enwedig ieithoedd tramor modern, technoleg dylunio, hanes a daearyddiaeth.

## Newidiadau i ddulliau addysgu

### Ysgolion

93 Mae mwyafrif o ysgolion a cholegau yn addasu'u haddysgu er mwyn ymateb i newidiadau i'r manylebau newydd. Mae'r rhan fwyaf o adrannau Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn cydnabod bod natur ragweladwy papurau arholiad o dan y manylebau blaenorol wedi galluogi athrawon i baratoi disgyblion bron yn beiriannol ar gyfer arholiadau. Nid yw hyn yn wir mwyach, gan fod angen i ddisgyblion erbyn hyn ddibynnu ar eu dealltwriaeth a'u medrau yn hytrach nag ar athrawon yn eu 'rhaglennu' ymlaen llaw ar sut i ymateb i bob cwestiwn penodol.

94 Mae llawer o adrannau Cymraeg a Saesneg wedi cynyddu eu ffocws ar addysgu medrau darllen ac ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o adrannau Saesneg yn cynllunio i ddatblygu'r medrau hyn o fewn cyd-destun testunau llenyddol ac anllenyddol yn hytrach na thrwy addysgu ar wahân yn ôl hen bapurau arholiad neu ymarferion wedi'u tynnu o gyd-destun. Mae llawer o adrannau Cymraeg yn cynnig mwy o gymorth ieithyddol i ddisgyblion, er enghraifft trwy 'fatiau iaith' sy'n cynnwys ymadroddion ac idiomau defnyddiol, a meini prawf llwyddo i gwblhau tasgau penodol. Yn gyffredinol, mae'r pwyslais cynyddol ar feistroli'r medrau hyn wedi arwain at lai o ffocws ar lenyddiaeth a llai o amrywiaeth. Yn ogystal, mae'r pwyslais mwy ar gywirdeb technegol wedi cyfrannu at lwyth gwaith marcio trymach i athrawon. Mae'r tueddiadau hyn yn ymestyn i mewn i gyfnod allweddol 3.

95 Mae adrannau Cymraeg a Saesneg yn cynllunio'n briodol i addasu medrau darllen lefel uwch disgyblion, yn enwedig medrau cyfosod a chrynhoi. Mae llawer o ysgolion yn datblygu'u defnydd o atebion wedi'u modelu i ddangos i ddisgyblion beth yw ymatebion o ansawdd da.

96 Mae llawer o adrannau mathemateg yn rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu medrau datrys problemau disgyblion. Er enghraifft, mae athrawon yn addasu strwythur cynlluniau gwersi i addysgu'r medrau gyntaf ac yna rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer y medrau hyn yn eu cyd-destun yn ystod pob gwers. Mae athrawon yn yr adrannau hyn yn defnyddio strategaethau fel gridiau datrys problemau i helpu disgyblion gofio'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i ddatrys problemau. Yn gyffredinol, mae'r strategaethau hyn yn llwyddiannus, yn enwedig o ran gwella gallu disgyblion i ddethol gwybodaeth allweddol o broblemau.

97 Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw'r trefniadau ar gyfer datblygu medrau a strategaethau datrys problemau disgyblion mewn mathemateg a rhifedd yn ddigon cryf. Nid yw'r ysgolion hyn yn cynllunio i ddisgyblion gael cyfleoedd buddiol i ddatblygu a thrafod mathemateg mewn cyd-destunau go iawn. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw'r athrawon sy'n addysgu'r cymwysterau TGAU newydd wedi cael fawr o drafodaeth, neu ddim trafodaeth, am y newidiadau a allai fod angen eu gwneud mewn addysgu ac addysgeg i ymateb i fodloni gofynion y cymwysterau newydd.

**Astudiaeth achos 4: Ysgol Uwchradd Caerdydd – Datblygu arddull addysgu ar gyfer y cymhwyster mathemateg newydd**

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 18 oed yw Ysgol Uwchradd Caerdydd, yng ngogledd dinas Caerdydd. Mae 1,640 o ddisgyblion ar y gofrestr; mae rhyw 7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac mae anghenion addysgol arbennig gan ryw 14%.

Mae'r adran wedi credu erioed bod addysgu i sicrhau dealltwriaeth yn bwysig, ond yn 2013, nododd yr adran lawer o ffactorau a fyddai'n mynnu bod athrawon yn rhoi mwy o ffocws fyth ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fathemateg. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys ymgorffori'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, cyflwyno profion rhesymu a'r cymhwyster TGAU mathemateg-rhifedd newydd. Cyflwynodd gynllun i ddatblygu gallu disgyblion i resymu'n fathemategol a datrys problemau a roddir mewn cyd-destunau.

Dechreuodd yr ysgol ar y daith hon trwy gyflwyno gwersi rhesymu ar gyfer pob testun. Datblygodd yr adran ei hadnoddau ei hun yn ogystal â defnyddio adnoddau a oedd ar gael yn barod, ond yn bwysicach, rhoddodd ffocws aruthrol ar addysgeg.

Ffurfiodd yr ysgol driawd yn cynnwys y pennaeth mathemateg, pennaeth cyfnod allweddol 3 mewn mathemateg ac un athro mathemateg arall i wneud ymchwil a threialu dulliau addysgu ar gyfer datblygu medrau rhesymu.

Daeth cyfarfodydd adrannol yn amser i drafod beth oedd wedi gweithio'n dda (a heb fod cystal) wrth gyflwyno'r gwersi rhesymu. Bu athrawon yn arsylwi ei gilydd yn cyflwyno'r gwersi hyn yn rheolaidd, a thrwy'r broses hon, mireiniodd yr adran ei methodolegau addysgu gyda'r nod o gael addysgu o ansawdd uchel ar gyfer sicrhau dealltwriaeth yn gyson ar draws yr adran.

Wrth i athrawon ddod yn fwy hyderus yn eu gallu i ddatblygu medrau datrys problemau disgyblion, aethant ati i gyflwyno elfennau o resymu i'w holl wersi.

Mae'r ffocws ar addysgu a dysgu wedi'i ffurfioli. Ceir cyfleoedd i rannu arfer effeithiol o fewn yr adran drwy arsylwadau o gymheiriaid bob hanner tymor a chyflwyniadau mewn cyfarfodydd adran, yn ogystal â sgyrsiau anffurfiol. Neilltuir holl amser cyfarfodydd yr adran i drafod addysgu a dysgu, a rhannu arfer dda. Mae'r adran yn gwneud ei holl waith gweinyddol trwy fwletin wythnosol a gaiff ei anfon drwy'r e-bost.

Mae cynlluniau gwaith wedi cael eu haddasu fel bod testunau'n cael eu haddysgu mewn camau graddol, gan adeiladu medrau a dealltwriaeth drwy wneud hynny. Pan fydd disgyblion wedi meistroli'r medrau hyn, rhoddir cyfleoedd iddynt gymhwyso a datblygu'r rhain ymhellach mewn cyd-destun neu mewn cwestiynau aml-gam.

Mae athrawon yn defnyddio dulliau cytûn i roi modelau sgaffaldio / strategaethau i ddisgyblion ddatrys problemau mewn cyd-destun. Mae athrawon yn cyflwyno'r dulliau hyn trwy gydol cyfnod allweddol 3, ac mae'r cysondeb hwn o ran dull yn golygu bod disgyblion, erbyn iddynt gyrraedd cyfnod allweddol 4, yn hyderus i fynd i'r afael â phroblemau a osodir mewn cyd-destun neu broblemau sy'n mynnu mynd drwy sawl cam i ddod o hyd i ateb.

Mae addysgu i sicrhau dealltwriaeth wedi dod yn athroniaeth yr adran. Mae'r ddarpariaeth wedi effeithio'n uniongyrchol ar ddeilliannau mewn mathemateg a rhifedd, ac mae canlyniadau mewn arholiadau allanol wedi bod yn rhagorol yn gyson.

98 Mae addysgu heriau sgiliau Bagloriaeth Cymru yn mynnu set wahanol o fedrau i'r rheini sydd eu hangen i addysgu pynciau TGAU. Mewn mwyafrif o ysgolion, mae athrawon yn deall sut i drefnu gwaith prosiect disgyblion ac yn cynllunio'n addas i ddefnyddio medrau disgyblion. Fodd bynnag, mae gallu a hyder athrawon yn rhy amrywiol o ran datblygu medrau penodol disgyblion, yn enwedig medrau rhifedd a TGCh. Yn gyffredinol, mae ansawdd addysgu yn uwch mewn ysgolion lle caiff y cwrs ei gynllunio a'i gyflwyno gan dîm arbenigol, pwrpasol. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn fwy brwdfrydig ynglŷn â'r cwrs, mae ganddynt ddealltwriaeth ddyfnach o ofynion y cwrs, ac maent yn defnyddio ystod ehangach o ddeunyddiau a strategaethau addysgu ysgogol.

### Ansawdd addysgu ac asesu

99 Mae'r addysgu yn effeithiol mewn llawer o'r gwersi a arsylwyd ar gyfer yr arolwg hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn fodelau iaith da ac maent yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'u disgyblion, ac mae'r mwyafrif yn frwdfrydig ynglŷn â'u pwnc.

### Saesneg

100 Yn y mwyafrif o wersi, ceir cydbwysedd defnyddiol rhwng mewnbwn yr athro a gweithgarwch ystyrlon ymhlith disgyblion, gydag asesiad ffurfiannol ac adborth buddiol. Mae athrawon yn gofyn cwestiynau sy'n archwilio dealltwriaeth disgyblion yn addas ac yn eu herio i ddatblygu'u hymatebion llafar yn briodol. Mewn lleiafrif o ysgolion, ceir camsyniad y bydd dim ond darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llefaredd presennol mewn trafodaethau pâr neu grŵp bychan yn ehangu'u medrau, ond yn y rhan fwyaf o achosion mae ond yn eu galluogi i ymarfer beth maent yn gallu ei wneud yn barod.

101 Yn gyffredinol, mae ymyriadau athrawon pan fydd disgyblion yn siarad mewn parau neu grwpiau bach yn canolbwyntio ar yr hyn y mae disgyblion yn ei ddweud yn hytrach na sut maent yn ei ddweud. Anaml y bydd athrawon yn cynnig unrhyw arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella eu mynegiant, ehangu'u geirfa neu amrywio eu goslef. Er enghraifft, mae trafodaeth am y berthynas rhwng Arglwydd Capulet a'i ferch yn 'Romeo and Juliet' yn cefnogi medrau darllen disgyblion yn fwy na datblygu'u hymatebion llafar.

102 Rhoddir digon o gyfleoedd i bron pob disgybl lithrddarllen a bwrw golwg ac i ddefnyddio techneg sylfaenol rhesymu a dod i gasgliad. Fodd bynnag, y tu hwnt i astudio testunau llenyddol, nid yw disgyblion yn gyffredinol yn cael digon o gyfleoedd heriol i ddatblygu'u medrau darllen lefel uwch, yn enwedig medrau cyfosod a chrynhoi, cyn iddynt gyrraedd cyfnod allweddol 4.

103 Cynigir cyfleoedd buddiol i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgrifennu at ddibenion penodol, er nad yw eu hymdeimlad o gynulleidfa yn cael sylw digon da bob amser. Nid yw gormod o dasgau nad ydynt yn seiliedig ar sefyllfaoedd go iawn, fel gofyn i ddisgyblion 'ysgrifennu at estronwr' neu 'ymuno ag MI5' o unrhyw gymorth i unioni'r diffyg hwn yng nghyfnod allweddol 3. Rhoddir cyfleoedd defnyddiol i'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ysgrifennu mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys llythyrau ffurfiol at benaethiaid yn trafod gwerthu cynhyrchion 'Masnach Deg' yn ffreutur yr ysgol, taflenni gwybodaeth i ddisgyblion Blwyddyn 9 ar ddewisiadau, ac adroddiadau ar ostwng y terfyn cyflymder.

104 Dylanwadir yn sylweddol ar ddatblygiad ysgrifennu disgyblion gan:

- yr amser a ganiateir iddynt
- disgwyliad iddynt wella eu cywirdeb technegol ac ansawdd eu hysgrifennu
- ansawdd adborth yr athro i'w harwain ar sut i ddatblygu'u hysgrifennu

**Astudiaeth achos 5: Ysgol Bro Hyddgen yn datblygu gwydnwch disgyblion wrth ysgrifennu mewn arholiadau**

Ysgol ddwyieithog pob oed yn nhref Machynlleth o fewn awdurdod lleol Powys yw Ysgol Bro Hyddgen. Mae 490 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac o'r rheini mae 200 yn yr adran gynradd a 290 yn yr adran uwchradd. Mae tua 44% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae rhyw 10% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Gweledigaeth yr adran yw hyrwyddo amgylchedd lle anogir disgyblion i ddysgu o'u camgymeriadau. Ceir ffocws cryf ar ddysgu annibynnol, a datblygu ysgrifennu estynedig o ansawdd uchel, gan ddefnyddio meini prawf a ddeellir yn glir yn yr holl gynlluniau gwaith o gyfnod allweddol 3 ymlaen.

Gofynnodd yr adran am farnau disgyblion ynglŷn â'r modd y rhoesant adborth ysgrifenedig ar ysgrifennu estynedig a gynhyrchwyd o dan amodau arholiad, a chanfu nad oedd disgyblion yn ystyried bod ailddrafftio yn fuddiol. Ymatebodd yr adran i hyn drwy sefydlu'r egwyddor y dylai'r drafft cyntaf fod y drafft 'gorau' a therfynol, gan y byddai o dan amodau arholiad. I ategu hyn, mae'r sylfeini mewn gwers yn rhai cynyddol bob amser, gyda sesiynau llawn bach a chlir i helpu disgyblion fireinio a datblygu'u gwaith, ar sail meini prawf llwyddo cynhwysfawr. Dywedir wrth ddisgyblion bob amser i ysgrifennu o fewn cyfyngiadau amser clir a bod 'amseru yn allweddol'.

Mae'r adran wedi creu meini prawf llwyddo ysgrifennu, sy'n cael eu rhannu gyda'r holl ddisgyblion o gyfnod allweddol 3 ar gyfer datblygu ysgrifennu

estynedig dan amodau amseru.  Cyflwynir y rhain i ddisgyblion mewn termau hawdd i ddisgyblion eu deall ar daflenni cymorth clir ac ar arddangosiadau ar waliau.  Rhaid i ddisgyblion gadw at y meini prawf llwyddo hyn a'u cynnwys i gyd yn eu tasgau ysgrifennu.

Defnyddir yr acronym **GAP** i atgoffa disgyblion i ystyried 'Genre', 'Audience' a 'Purpose' (Genre, Cynulleidfa a Diben) eu tasg ysgrifennu estynedig. Mae taflenni cymorth defnyddiol sy'n crynhoi'r meini prawf **GAP** yn cael eu harddangos mewn llyfrau ac ar waliau ystafelloedd dosbarth.

Pan gaiff tasg ysgrifenedig ei gosod, mae disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol am ryw wyth munud.  Yna maent yn rhoi'r gorau i ysgrifennu ac yn hunanasesu eu gwaith ar sail y meini prawf llwyddo clir a nodwyd uchod.  Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn gosod eu targedau eu hunain ar ôl iddynt hunanasesu, drwy amlygu a nodi beth sydd angen iddynt ei ddatblygu yn y cam nesaf o'u testun.  Nid yw disgyblion yn mynd yn ôl i fireinio.  Maent yn bwrw ymlaen gyda'r gwelliannau i'r adran nesaf lle byddant yn datblygu'u tasg ysgrifenedig.

O ganlyniad i'r strategaethau hyn, mae'r adran wedi sylwi ar welliant nodedig yn ysgrifennu'r disgyblion ar draws yr ystod gallu, yn enwedig yn eu gwydnwch i ysgrifennu'n effeithiol mewn tasgau estynedig.

105 Mae'r disgwyliad i ddisgyblion ailddrafftio gwaith ysgrifenedig wedi lleihau mewn lleiafrif o ysgolion yn sgil galwadau ychwanegol canfyddedig arholiadau presennol a chyfyngiadau amser canlynol.  Ceir gorddibyniaeth ar ddulliau adolygu â ffocws tynn, ond cul, fel 'amser myfyrio ar welliant dan gyfarwyddyd'.  Er ei fod yn ddefnyddiol, nid yw'r dull hwn yn mynnu bod disgyblion yn adolygu cynnwys eu hysgrifennu yn ddigon trwyadl nac yn ddigon eang.  Caiff hyn ei waethygu pan na fydd athrawon yn ailedrych ar waith diwygiedig y disgyblion, fel nad yw'r athro na'r disgybl yn gwybod a yw'r gwaith wedi'i wella.

106 Mae'r mwyafrif o adborth ysgrifenedig gan athrawon yn rhoi arweiniad clir ar sut y gall disgyblion wella cynnwys a strwythur eu hysgrifennu, ac mae'n nodi meysydd yn narllen a dealltwriaeth disgyblion o destunau amrywiol sydd angen eu gwella.  Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r adborth yn rhy grynodol neu'n ymwneud ag ymdrech, (er enghraifft, lle mae athrawon yn gwneud sylwadau am agweddau disgyblion at ddysgu yn bennaf, ond yn cynnig fawr o dreiddgarwch i'r agweddau ar eu gwaith y mae angen iddynt eu datblygu).  Yn aml, mae hyn yn canolbwyntio ar sillafu, atalnodi a gramadeg sylfaenol yn unig, ac nid yw'n dweud fawr ddim am ddatblygu cynnwys. Yn ogystal, anaml iawn y mae'n cyfateb i alluoedd ac anghenion disgyblion priodol.

107 Mae'r adborth ar ymatebion disgyblion i gwestiynau dull arholiad yn gadarn ac yn ddefnyddiol gan mwyaf.  Yn yr achosion gorau, mae'n amlygu cryfderau penodol a meysydd i'w datblygu, fel gwella'r defnydd o dystiolaeth a mynegiant, a sicrhau yr eir i'r afael â'r cwestiwn yn glir.  Yn hanfodol, mae'r adborth mwyaf effeithiol yn dangos ymwybyddiaeth wybodus o alluoedd disgyblion priodol ac yn osgoi dull 'un sylw i bawb'.

108 Mae ychydig o ysgolion y defnyddio ‘sesiynau torfol bach’ yn dda, lle mae disgyblion yn asesu’u cynnydd eu hunain yn erbyn meini prawf llwyddo clir yn seiliedig ar gynlluniau marcio.  Mae’r ysgolion hyn yn defnyddio’r dull hwn yn ddoeth, ac yn osgoi asesu gan gyfoedion a hunanasesu nad ydynt yn ddim mwy nag ymarferiadau marcio di-hid ac nad ydynt wir yn cynorthwyo dysgu.  Yn aml, mae’r math hwn o ymarferiad o fudd i’r disgyblion mwy abl yn bennaf, gan fod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o feini prawf llwyddo sy’n galluogi gosod targedau tymor byr ystyrlon.

109 Lle gwelir diffygion mewn gwersi, y rheswm am hynny’n aml yw bod y gwersi’n cael eu harwain gormod gan yr athro, gan fod yr athro yn teimlo bod angen arweiniad cyson ar ddisgyblion.  Yn aml, mae’r diffyg hwn yn arwain at faterion yn ymwneud â lefel yr her a chyflymder dysgu.

110 Er gwaethaf ffocws cenedlaethol ar ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu’u medrau, mae ychydig o ysgolion yn dal i fethu yn y maes hwn, yn enwedig wrth geisio datblygu medrau iaith disygblion drwy lenyddiaeth.  Enghraifft o hyn yw gofyn i ddisgyblion ysgrifennu llythyr ffurfiol fel pe baent yn was fferm teithiol.  Mae hyn yn dasg annhebygol a ffuantus nad yw’n cynnig y cyfle gorau i ddatblygu naws addas neu ymdeimlad o gynulleidfa.

**Astudiaeth achos 6:  Ysgol Bryn Elian – datblygu medrau disgyblion**

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11-18 oed yw Ysgol Bryn Elian, ac fe’i cynhelir gan awdurdod lleol Conwy.  Mae 950 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 160 yn y chweched dosbarth.  Mae rhyw 16% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Penderfynodd yr adran Saesneg gynnal peilot o ddulliau newydd o addysgu disgyblion sut i fod yn ddarllenwyr ac ysgrifenwyr beirniadol ochr yn ochr â chyfarwyddyd gramadeg penodol.  Nod yr ysgol oedd i ddisgyblion fod yn fwy llwyddiannus, wrth gymhwyso’u medrau i unrhyw destun a chwestiwn, a mynegi eu dealltwriaeth yn glir.  Mae cynlluniau gwaith yn llai seiliedig ar ddeilliannau ac yn canolbwyntio mwy ar feistroli medrau.  Mae’r strategaeth hon yn cefnogi disgyblion unigol yn well, yn hytrach na cheisio gwthio’r holl ddisgyblion at ddeilliant disgwyliedig heb ystyried eu gallu.

Aeth yr adran ati hefyd i addasu ei pholisi marcio, asesu ac adborth er mwyn darparu ar gyfer amrywiaeth o ddulliau marcio, asesu ac adborth, gyda ffocws clir ar ymyriadau penodol a gosod targedau i sicrhau cynnydd cyflym.

Mae’r adran wedi datblygu unedau penodol yn seiliedig ar fedrau darllen ac ysgrifennu i’w haddysgu ar ddechrau bob blwyddyn.  Ym Mlwyddyn 7, mae’r rhain yn unedau manwl yn canolbwyntio ar wahanol fedrau darllen, gramadeg a medrau ysgrifennu.  Mewn blynyddoedd diweddarach, ceir modiwlau pellach i atgyfnerthu ac adnewyddu’r medrau hyn.  Mae iaith gyffredin ac enghreifftiau yn datblygu dealltwriaeth dysgwr yn barhaus ac yn datblygu’r medr ymhellach.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r adran wedi cyflwyno'r wers 'her 200 gair' i roi'r cyfle i fyfyrwyr ysgrifennu bob wythnos. Bob yn ail â hyn, addysgir gramadeg yn benodol er mwyn galluogi myfyrwyr i gael y derminoleg a'r wybodaeth i'w cymhwyso i destunau wrth iddynt ddarllen ac ysgrifennu eu hunain.

Gwna'r adran ddefnydd mynych a deallus o ddata wedi'i segmentu er mwyn darparu ymyriadau penodol, wedi'u targedu ar lefel unigol a lefel dosbarth, fel yr amlygir yn y casgliadau data. Er enghraifft, bob hanner tymor, mae disgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 yn cwblhau prawf. Caiff y data ei gofnodi ar daenlenni, cwestiwn wrth gwestiwn ac felly, medr wrth fedr, ac yna cymhwysir codau lliw er mwyn amlygu meysydd datblygu ar gyfer pob dysgwr.

Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, bu gwelliant nodedig o ran disgyblion yn gallu nodi a chymhwyso medrau darllen ac ysgrifennu gwahanol. Mae'r adran yn dechrau gweld gwelliant mewn deilliannau ysgrifennu, yn enwedig ar lefelau a graddau uwch, gan fod myfyrwyr yn gallu meistroli defnyddio mathau penodol o frawddegau, atalnodi, strwythurau testun a threfniant. Mae disgyblion yn dod yn fwy abl i nodi eu camgymeriadau eu hunain a ffyrdd i wella gwendidau penodol.

### Cymraeg iaith

111 Mae gwybodaeth bynciol gadarn ac angerdd dros addysgu eu pwnc gan lawer o athrawon. Mae bron yr holl staff addysgu yn fodelau iaith da iawn. Mae bron pob un ohonynt yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol ac effeithiol mewn gwersi.

112 Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n drwyadl ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae gweithgareddau dysgu yn ysgogol a gwreiddiol, ac yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio ystod eang o adnoddau addysgu yn effeithiol, gan gynnwys cyfryngau gweledol a sain i roi testunau mewn cyd-destun. Maent yn amseru tasgau'n ofalus ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n adeiladu ar wybodaeth a medrau disgyblion.

113 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio iaith dechnegol yn dda er mwyn herio disgyblion ac ehangu'u geirfa. Yn yr ychydig o wersi effeithiol iawn, mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus ac yn eu hannog i ddefnyddio iaith soffistigedig wrth ymateb. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn canolbwyntio'n gryf ar godi safonau mynegiant. Maent yn aml yn dechrau gwersi drwy archwilio camgymeriadau ieithyddol cyffredin, gan herio disgyblion i nodi'r rhain a'u cywiro. Mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn atgoffa disgyblion i siarad Cymraeg mewn gwersi Cymraeg. Mae hwn yn ddiffyg sylweddol ac yn rhwystro datblygu rhuglder disgyblion, yn ffrwyno eu hyder ac yn cyfyngu ar eu potensial i gyrraedd y lefelau cyrhaeddiad uchaf.

114 Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn cadw'n rhy haearnaidd at eu cynlluniau gwersi ac nid ydynt yn ymateb yn ddigon hyblyg i fynd i'r afael â materion wrth iddynt godi. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion

yr ystod gallu llawn.  Yn benodol, nid yw athrawon yn rhoi digon o ystyriaeth i godi cyrhaeddiad y disgyblion mwyaf abl gan nad oes cyfleoedd sy’n eu herio i fodloni gofynion y bandiau marcio uwch.  Mewn ychydig o achosion, ceir gormod o bwyslais ar gwblhau gweithlyfrau, sy’n rhwystro’r dysgu ac yn atal cyfleoedd i ddatblygu dysgwyr annibynnol.

115 Mewn ychydig o ysgolion, mae gan adrannau Cymraeg a Saesneg ddull cyson o addysgu technegau dadansoddi fel bod disgyblion wedi’u trwytho yn yr un fethodoleg.  Mae’r dull hwn yn cefnogi datblygu medrau dadansoddi disgyblion yn dda yn y ddwy iaith.

116 Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn symud o amgylch y dosbarth yn gyson er mwyn holi ac ysgogi disgyblion i gyfiawnhau eu hatebion.  Cynigiant sylwadau gwerthfawr ac adeiladol sy’n helpu disgyblion.  Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i’r rhain ac yn gwneud gwelliannau cyson i ansawdd eu gwaith.

117 Mae’r lleiafrif o athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig defnyddiol ar eu gwaith i ddisgyblion, sy’n cynnwys cryfderau a thargedau datblygu.  Yn aml, mae’r rhain yn nodi meysydd i’w gwella yn gywir.  Fodd bynnag, dim ond mewn ychydig o enghreifftiau y rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb i’r sylwadau hyn a gwella agweddau penodol ar eu gwaith.  O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn parhau i wneud yr un camgymeriadau.

**Astudiaeth achos 7:  Ysgol Llanhari  – datblygu medrau disgyblion**

Ym Medi 2012, ehangwyd Ysgol Llanhari i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion o 3 i 19 oed.  Nid yw’r ysgol wedi cyrraedd ei chapasiti llawn eto, ac eleni mae ynddi ddosbarthiadau o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 5, a Blwyddyn 7 i Flwyddyn 13.  Mae cyfanswm o 600 o ddisgyblion yn yr ysgol: 400 yn yr adran uwchradd, gan gynnwys 60 o fyfyrwyr y chweched dosbarth, a 110 o ddisgyblion yn yr adran gynradd.

Daw 41% o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg, ond mae 90% yn siaradwyr Cymraeg rhugl.  Mae rhyw 8% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae 9% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd islaw’r cyfartaledd cenedlaethol.  Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae’r adran Gymraeg yn cynllunio’n ofalus iawn i gynnig ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu’u medrau llafar, darllen ac ysgrifennu estynedig.  Maent yn cofrestru’r holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer yr arholiad TGAU Cymraeg iaith.

**Llefaredd**

Mae datblygu medrau llefaredd disgyblion yn rhan annatod o waith yr adran yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.  Rhoddir ystod o dasgau ysgogol ar destunau amrywiol i ddisgyblion.  Cânt gyfleoedd i gasglu tystiolaeth ar y rhain cyn ei thrafod mewn grŵp o dri.  Mae cynllunio gofalus

yn sicrhau bod lefel yr her yn y tasgau hyn yn cynyddu dros y blynyddoedd. Mae’r adran yn rhoi cryn bwyslais ar ddatblygu naws naturiol i drafodaethau. Cefnogir disgyblion yn gryf i ddatblygu hyd eu cyflwyniadau ynghyd â’u medrau dadansoddi ar draws y cyfnodau allweddol. Mae athrawon yn defnyddio enghreifftiau o ansawdd uchel o waith llafar unigol a grŵp yn rheolaidd i gryfhau dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion o ofynion yr arholiad, a’u helpu i osod targedau penodol ar gyfer gwella.

**Darllen**

Rhoddir blaenoriaeth uchel iawn i sicrhau bod disgyblion yn mwynhau darllen. Mae’r adran yn defnyddio cyfleoedd o’r cwrs TGAU llenyddiaeth i helpu datblygu iaith disgyblion. Mae bron yr holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn astudio’r nofel osodedig ac yn sefyll yr uned arholiad ar nofel yn yr haf ym Mlwyddyn 10. Mae’r adran yn rhoi pwyslais ar ddarllen y nofel yn ei chyfanrwydd cyn ei rhoi yng nghyd-destun papur arholiad. Mae’r adran yn cynllunio i sicrhau bod disgyblion yn caffael y medr o ddadansoddi cwestiynau a sut y caiff marciau eu dyrannu mewn ymarferiadau i gymharu testunau, gan ddechrau yng nghyfnod allweddol 3. Mae hyn yn arwain at wella dyfalwch a dyfalbarhad disgyblion wrth fynd i’r afael â chwestiynau estynedig a chymariaethau yn gynnar. Yn ogystal, defnyddir profion darllen anllenyddol, cwestiynau ymchwilgar a ‘materion cyflym’ i ysgogi meddwl disgyblion ac osgoi eu llethu â darnau hir.

**Ysgrifennu**

Mae’r adran yn cynnig strwythur clir o ‘drefn, model ac ymateb’. Mae’n ceisio ennyn diddordeb bechgyn gydag enghreifftiau pwrpasol, modelu rheolaidd ac ymarferiadau cryno.

Ar draws y cyfnodau allweddol, mae disgyblion yn ymarfer gwahanol fathau o ysgrifennu yn rheolaidd, gan ymateb yn aml i dasgau heb eu gweld wedi’u hamseru. Mae athrawon yn canolbwyntio ar reolau iaith yn gyson, ac mae ‘ymarferiadau cywiro’ yn sylfaen ar gyfer dechrau pob gwers.

**Effaith**

O ganlyniad i’r strategaethau hyn, mae medrau cyfathrebu cryf gan lawer o ddisgyblion. Maent yn mynegi’u hunain yn glir trwy ddefnyddio geirfa estynedig a chystrawen gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cryf. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn uchel yn rhugl ac yn defnyddio mynegiant perthnasol. Mae dadansoddiad lefel eitem yr adran o ganlyniadau cyfnod allweddol 4 yn 2017 yn dangos dyfalwch a dyfalbarhad yr ymgeiswyr, ac fe wnaeth bron pawb geisio ateb bron pob cwestiwn ar y ddau bapur arholiad.

## Mathemateg a mathemateg-rhifedd

118 Mae llawer o athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn defnyddio’r wybodaeth hon yn briodol i gynllunio gwersi gydag ystod addas o weithgareddau i

fodloni anghenion dysgu disgyblion yn ôl eu galluoedd. Mae'r athrawon hyn yn sefydlu arferion effeithlon yn yr ystafell ddosbarth, ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad. Mae hyn yn helpu hyrwyddo'r amser sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu i'r eithaf. Maent yn esbonio cysyniadau'n glir ac yn fedrus, gan adeiladu dealltwriaeth a hyder eu disgyblion mewn camau graddol.

119 Mae llawer o athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol, gan gynnwys technegau buddiol fel defnyddio byrddau gwyn bach i fonitro gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o destunau. Maent yn annog disgyblion i ddyfalbarhau, ac yn rhoi adborth llafar gwerthfawr, sy'n eu helpu i wneud cynnydd. Mae ychydig yn gwneud hyn yn fedrus iawn, gan gynnwys yr ystod lawn o ddisgyblion a'u cwestiynu'n fedrus er mwyn archwilio ac ehangu eu dealltwriaeth. Yn aml, gofynnant gwestiynau penagored sy'n mynnu bod disgyblion yn esbonio'u rhesymeg.

120 Mewn ychydig o wersi, mae'r addysgu yn effeithiol iawn. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn eithriadol o wybodus a brwdfrydig ynglŷn â'u pwnc, ac mae hyn yn helpu disgyblion i feithrin diddordeb dwfn mewn mathemateg. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac maent yn monitro'u cynnydd yn fanwl, gan eu hannog i feddwl drostynt eu hunain drwy ofyn cwestiynau fel 'a elli di ddweud mwy wrthyf am dy ddull?' a 'a allet ti wneud hyn mewn ffordd wahanol?'. Maent yn annog disgyblion i ddewis eu dulliau eu hunain i ddatrys problemau ac yn annog trafodaeth ynghylch y dulliau posibl amrywiol mewn grwpiau bach neu drafodaethau dosbarth cyfan.

**Astudiaeth achos 8: Ysgol Dyffryn Aman – datblygu gallu disgyblion i ddatrys problemau aml-gam a phroblemau wedi'u gosod mewn cyd-destun**

Ysgol ddwyieithog a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin yw Ysgol Dyffryn Aman. Mae 1,530 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae 50% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg i safon mamiaith. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Rhydaman wrth droed y Mynydd Du. Cyfran y disgyblion a chanddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim yw 19%.

Yn dilyn cyfres o wersi lle dysgodd ddisgyblion fecaneg defnyddio trigonometreg a theorem Pythagoras i gyfrifo hydoedd ac onglau mewn ffurfiau sylfaenol, ffocws y wers oedd defnyddio'r medrau hyn mewn cwestiynau aml-gam mwy heriol wedi'u gosod mewn cyd-destun.

Dechreuodd y wers gyda gweithgaredd cychwynnol lle'r oedd disgyblion yn galw mecaneg cyfrifo ochrau ac onglau i gof gan ddefnyddio'r dulliau hyn. Roedd y gweithgaredd yn atgyfnerthu dysgu blaenorol ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'r prif weithgaredd.

Roedd y cynllunio ar gyfer prif weithgaredd y wers yn effeithiol iawn. Gweithiai disgyblion mewn grwpiau bach i gymryd rhan mewn cystadleuaeth. Gyda gweithgareddau wedi'u dylunio'n dda, roedd disgyblion yn gall datblygu'u medrau meddwl a datrys problemau. Cafodd pob grŵp nifer o dasgau datrys problemau yn seiliedig ar drigonometreg ag iddynt lefelau her amrywiol. Roedd sgôr i bob tasg, gyda sgorau uwch ar

gyfer y tasgau mwy anodd.  Roedd y grwpiau o ddisgyblion yn dewis pa dasgau yr oeddent eisiau eu datrys, gyda'r grŵp a oedd yn cael y sgôr uchaf yn ennill y gystadleuaeth.

Un cryfder arbennig oedd defnyddio grid sgaffaldio, a oedd yn annog disgyblion i ddangos eu dull a'u strategaeth yn glir ar gyfer datrys y problemau, tra'n cynorthwyo disgyblion pan fyddent yn wynebu anawsterau.

Aeth yr athro o amgylch y grwpiau hynny, yn herio syniadau'r grwpiau ac yn cefnogi'u meddwl mathemategol yn ofalus.  Pan ddaeth disgyblion ar draws anawsterau, defnyddiodd yr athro dechnegau holi medrus i alluogi disgyblion i weld pa gamau oedd eu hangen i ddatrys y problemau, heb ddweud wrthynt sut i'w wneud.

Gweithiodd yr holl ddisgyblion yn dda â'i gilydd, gyda'r disgyblion mwy abl yn darparu cymorth effeithiol i rai eraill yn y grŵp.  O ganlyniad, gwnaeth bron pob un o'r disgyblion gynnydd da iawn o ran eu gallu i ddatrys problemau heriol gan ddefnyddio theorem Pythagoras a thrigonometreg.

121 Mae ychydig o athrawon yn cynllunio i ddisgyblion hunanddewis lefel yr her mewn gweithgareddau.  Mae disgyblion yn hunanasesu'u cynnydd ac yn symud yn gyflym drwy waith i roi cynnig ar dasgau sydd â lefel briodol o her.  Mae'r dull hwn yn adeiladu hyder a medrau dysgu annibynnol disgyblion yn eithriadol o dda.  Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym yn aml, ac yn dangos cryn fwynhad yn eu dysgu mewn mathemateg.  Fodd bynnag, perygl y dull hwn yw y bydd disgyblion yn dewis lefel amhriodol o her.

122 Ceir diffygion mewn lleiafrif o wersi.  Y rheswm mwyaf cyffredin am hyn yw nad yw athrawon yn cynllunio gwersi sy'n herio'r ystod lawn o ddisgyblion yn ddigonol ac maent yn cynnig gormod o dasgau cyfyng ac ailadroddus.  Mae rhediad rhy araf i'r gwersi hyn ac felly nid yw disgyblion yn symud yn ddigon cyflym at dasgau mwy beichus fel problemau wedi'u gosod mewn cyd-destunau heriol, y rhai sy'n mynnu eu bod yn addasu'u dulliau, neu broblemau aml-gam.  Mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion feddwl drostynt eu hunain neu i gydweithio gyda disgyblion eraill i rannu syniadau a meddwl eu ffordd drwy'r broblem gyda'i gilydd.  Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn mynd i'r afael â chamsyniadau disgyblion yn ddigonol.  Mae hyn yn arwain at ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig eithriadol yn eu dysgu.

123 Mae trefniadau addas ar waith gan y rhan fwyaf o athrawon ar gyfer marcio ac asesu gwaith disgyblion, er bod ansawdd adborth ysgrifenedig yn amrywiol iawn.  Yn y lleiafrif o ysgolion lle mae asesiadau ysgrifenedig yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn darparu arweiniad penodol ar y modd y dylai disgyblion wella eu gwaith, ac yn dilyn hynny gyda thasgau pwrpasol sy'n gofyn i ddisgyblion ymateb i adborth yr athrawon a mynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu gwella.  Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, dim ond yr ateb terfynol i gwestiwn y mae athrawon yn ei roi.  Nid yw hyn yn galluogi disgybl y mae ei ateb yn anghywir i ddeall ble wnaeth gamgymeriad, ac mae'n annog disgyblion i feddwl mai dim ond dangos yr ateb terfynol i gwestiwn sy'n dderbyniol.

## Astudiaeth achos 9: Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant, Casnewydd – Gwella effaith gweithgareddau cychwyn

Ysgol gymysg, 11-18 oed, a gynorthwyir yn wirfoddol yw Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant, yn ninas Casnewydd ac Archesgobaeth Babyddol Caerdydd. Mae rhyw 1,450 o ddisgyblion ar y gofrestr. Daw tua 70% o'r rhain o deuluoedd Catholig. Mae cyfanswm o 13% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae'r adran fathemateg wedi datblygu diwylliant o gydgyfrifoldeb am greu adnoddau o ansawdd uchel i gefnogi a herio dilyniant disgyblion. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r adran wedi datblygu dros 100 o wahanol 'weithgareddau cychwynnol'. Nod pob un o'r rhain yw datblygu'r medrau craidd sydd eu hangen i ragori mewn haen arholiad benodol.

Mae'r gweithgareddau cychwynnol hyn yn cynnwys y 5 T:

- (Goleuadau) Traffig
- Tasgau amseredig
- Testunau
- Trosiant
- Targedau

**(Goleuadau) Traffig**: rhennir pob gweithgaredd cychwynnol yn adrannau coch a gwyrdd, a gwahaniaethir rhyngddynt gan ddibynnu ar gyrhaeddiad blaenorol y dosbarth a chyrhaeddiad disgyblion unigol. Er enghraifft, os yw gweithgareddau cychwynnol yn cael eu defnyddio gyda dosbarth haen uwch, bydd yr adran goch yn cynnwys cwestiynau sy'n targedu gradd C a B, a bydd yr adran werdd yn cynnwys cwestiynau sy'n targedu graddau A ac A*. Yn nodweddiadol, ceir pum cwestiwn ym mhob adran. Rhoddir yr annibyniaeth i ddisgyblion ddechrau ar unrhyw gwestiwn a chwblhau'r cwestiynau mewn unrhyw drefn.

**Tasgau amseredig:** caiff pob gweithgaredd cychwynnol ei amseru a rhoddir 10 munud i ddisgyblion gwblhau gymaint o gwestiynau ag y gallant. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ymarfer cwblhau cwestiynau o dan amodau amseredig fel mewn arholiadau, ac mae hyn yn gwella effeithlonrwydd disgyblion dros gyfnod. Er mwyn defnyddio amser yn effeithlon, mae athrawon yn darparu atebion model i'r cwestiynau coch ar ôl pum munud, ac ond yn mynd drwy'r cwestiynau gwyrdd anoddach yn fanwl ar ôl i'r amser ddod i ben. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar asesu ar gyfer dysgu; os yw'r athro yn sylwi ar un neu fwy o gwestiynau coch sydd wedi'u hateb yn wael wrth fynd o amgylch yr ystafell neu holi disgyblion, byddant yn mynd yn ôl at y cwestiynau hyn yn fanwl hefyd.

**Testunau:** caiff pob gweithgaredd cychwynnol ei greu o ddetholiad o gwestiynau TGAU wedi'u cymryd neu'u haddasu o bapurau arholiad CBAC. Nid yw'r testunau ym mhob tasg wedi'u cysylltu o angenrheidrwydd â chynnwys y gallai disgyblion fod wedi'i ddysgu'n ddiweddar mewn gwersi. Maent yn mynnu bod disgyblion yn defnyddio gwybodaeth flaenorol, yn

cyfeirio at eu hadolygu ac yn myfyrio'n ofalus ar eu gwaith blaenorol i ateb yr holl gwestiynau yn llwyddiannus.

**Trosiant**: gan fod y tasgau cychwynnol yn cael eu cwblhau ym mhob gwers, maent yn golygu y gellir cael trosiant uchel o destunau. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ymarfer testunau nad ydynt efallai wedi'u hastudio'n ddiweddar, ac yn eu hatgoffa am destunau a dulliau y gallent fod wedi'u hanghofio fel arall. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cynnydd, caiff cwestiynau tebyg eu hailadrodd mewn dilyniant. Er enghraifft, os yw gweithgaredd cychwynnol yn cynnwys cwestiwn am adlog, bydd cwestiwn tebyg am adlog yn y tri i bum gweithgaredd cychwynnol nesaf. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ymarfer y medr y gallent fod wedi'i gael yn anodd ar y dechrau, ac mae'n annog meistrolaeth. Y disgwyliad yn ystod cyfres o weithgareddau cychwynnol yw y bydd disgyblion yn cyflawni sgorau uchel yn gynyddol, ac yn cywiro camgymeriadau y maent wedi'u gwneud yn flaenorol.

**Targedau**: ar ddiwedd pob gweithgaredd cychwynnol, mae disgyblion yn gosod targedau iddyn nhw eu hunain gan ddefnyddio datganiadau arfarnu 'beth aeth yn dda' a 'hyd yn oed yn well os'. Rhaid i dargedau fod yn gysylltiedig â'r cwestiynau a'r testunau y mae disgyblion wedi'u hateb yn y gweithgaredd cychwynnol hwnnw. Y disgwyliad yw y bydd gwaith cartref cyfredol yn canolbwyntio ar adolygu'r testunau y maent wedi'u nodi fel gwendidau, er mwyn gwella eu dealltwriaeth i baratoi i ateb cwestiynau tebyg yn y gweithgaredd cychwynnol nesaf. Wedyn, gall disgyblion ac athrawon fonitro eu cynnydd yn y testunau hyn trwy fonitro sgorau cynyddol yn y gyfres o weithgareddau cychwynnol.

Mae'r fenter wedi helpu cyfrannu i ddatblygu:

- addysgu a dysgu cyson o ansawdd uchel ar draws yr adran
- lefelau uchel o ran cynnydd disgyblion mewn gwersi unigol a dilyniannau o wersi
- perfformiad cryf iawn a chynaledig gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4
- datblygiad medrau cryf sy'n cwmpasu meddwl, hunanfyfyrio a hunan-gywiro

## Bagloriaeth Cymru

124 Yn y mwyafrif o wersi Bagloriaeth Cymru neu wersi'r her sgiliau, mae athrawon yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth o ddulliau effeithiol ac yn defnyddio adnoddau sy'n ysgogi diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Mae dealltwriaeth gadarn gan yr athrawon hyn o ofynion y cymhwyster, maent yn gosod meini prawf llwyddo clir i ddisgyblion, ac yn sicrhau eu bod yn deall diben tasgau a'u deilliannau dysgu bwriadedig. Maent yn darparu ystod o enghreifftiau i ddisgyblion i ddangos deilliannau bwriadedig eu gwaith. Gosodant ddisgwyliadau uchel, ac maent yn sicrhau bod disgyblion mwy abl yn deall yn dda beth yw'r meini prawf ar gyfer cyflawni'r deilliannau uchaf.

125 Mewn lleiafrif o wersi, ceir diffygion yn yr addysgu.  Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn defnyddio amrywiaeth ddigon eang o ddulliau ac nid ydynt yn sicrhau bod tasgau yn ddigon heriol neu ysgogol.  Yn benodol, nid ydynt yn darparu her ddigonol i ymestyn y disgyblion mwyaf abl.  Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn rhoi digon o eglurder i ddisgyblion ynglŷn â diben tasgau.  Er enghraifft, gofynnir i ddisgyblion yn aml gwblhau ‘archwiliad medrau’ fel rhan o’r paratoi ar gyfer gweithgareddau her, ond nid ydynt yn defnyddio’r wybodaeth o’r archwiliad hwn yn ystod y gweithgaredd neu fel rhan o’i adolygiad.  Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn dangos sut beth yw gwaith o ansawdd uchel.  O ganlyniad i’r diffygion uchod, mae disgyblion yn ymddieithrio o’u gwaith yn aml ac yn cwestiynu gwerth y cymhwyster.

126 Yn y rhannau asesedig o’r her sgiliau, mae’r fanyleb yn nodi’n glir na ddylai athrawon ddarparu unrhyw arweiniad unigol penodol i ddisgyblion.  Mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn gosod ‘ymarferiadau’ neu ‘heriau bach’ defnyddiol i baratoi disgyblion ar gyfer y gweithgareddau asesedig.  Lle mae hyn yn digwydd, mae’r mwyafrif o athrawon yn darparu disgyblion gyda chyngor ac arweiniad gwerthfawr ar ba mor dda y maent yn gwneud a sut gallent wella eu gwaith.  Mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn rhoi adborth ddigon clir i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith yn y gweithgareddau hyn.  O ganlyniad, nid oes dealltwriaeth glir gan ddisgyblion o ba mor dda y maent yn gwneud, a chaiff hyn effaith negyddol ar eu cynnydd.

127 Lle mae’r addysgu mewn gwersi’r her sgiliau yn aneffeithiol, mae hyn yn aml yn gysylltiedig â:

- diffyg statws yn cael ei roi i’r cymhwyster gan arweinwyr
- dim digon o amser cwricwlwm
- diffygion mewn hyfforddiant a chymorth i athrawon i gyflwyno Bagloriaeth Cymru

**Astudiaeth achos 10:  Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Joseff Sant – cynllunio’r cwricwlwm ar gyfer y dystysgrif her sgiliau a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru**

Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Joseff Sant yw’r unig ysgol eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir a rennir yng Nghymru.  Mae’n darparu addysg gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 16 oed yn Esgobaeth Gatholig Wrecsam, Esgobaeth Anglicanaidd Llanelwy ac ardal awdurdod lleol Wrecsam.  Ar hyn o bryd, mae 709 o ddisgyblion ar y gofrestr.  Cyfran y disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yw 9.4%, gyda rhyw 33% o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.  Mae tua 25% o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Yn Ysgol Joseff Sant, mae darpariaeth y cwricwlwm ar gyfer y dystysgrif her sgiliau yn adeiladu ar lwyddiant y fanyleb flaenorol ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.  Roedd disgyblion wedi mwynhau lefel sylweddol o lwyddiant yn flaenorol, gydag un awr bob pythefnos wedi’i hamserlennu ym Mlwyddyn 11.  Wrth gynllunio ar gyfer cyflwyno’r fanyleb newydd, roedd yr uwch dîm rheoli yn glir na fyddai’n bosibl rhoi mwy o amser i’r dystysgrif her sgiliau.  Yn lle hynny, byddent yn chwilio am amser o fewn meysydd pwnc presennol neu du allan i’r amserlen bythefnos ffurfiol.  Roedd y model a’r

cynllun cwricwlwm terfynol yn ei gwneud yn ofynnol bod yr addysgu a'r dysgu ar gyfer yr her dinasyddiaeth fyd-eang yn dechrau ym Mlwyddyn 9, yn cael ei chyflwyno gan athrawon hanes a daearyddiaeth yn eu hamser cwricwlwm (tua 15 awr). Byddai'r asesiad dan reolaeth yn cael ei gynnal dros bedwar diwrnod wedi'u hamserlennu yn nhymor yr haf.

Parhaodd y model uchod fel y patrwm ar gyfer yr heriau a oedd yn weddill, gyda'r addysgu a'r asesu yn cael eu cyflawni o fewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg gorfforol. Hefyd, roedd nifer sylweddol o ddiwrnodau wedi'u pennu'n strategol yn sgil dymchwel y cwricwlwm ym Mlwyddyn 10. Defnyddir cyfanswm o 14 o ddiwrnodau'r amserlen yn ystod Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10 i gyflwyno'r tair her.

Caiff elfen 'prosiect' yr heriau sgiliau ei chyflwyno ar ddiwedd Blwyddyn 10 a thrwy gydol Blwyddyn 11. Mae hon yn defnyddio'r un wers bob pythefnos a amserlennwyd yn flaenorol ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac addysg bersonol a chymdeithasol, a phedwar o ddiwrnodau yn sgil dymchwel yr amserlen. Caiff ei haddysgu mewn grwpiau gallu cymysg, yn bennaf drwy uwch arweinwyr addysgu a dysgu sy'n ddeiliaid swyddi â chyfrifoldeb. Lle bo'n briodol, defnyddir arbenigwyr pwnc i sicrhau bod cyfleoedd mewn rhai elfennau allweddol a meini prawf asesu yn cael eu hyrwyddo i'r eithaf. Er enghraifft, mae athrawon mathemateg yn rhoi gweithdai ar dechnegau ystadegau sydd eu hangen i gael marciau uwch.

Cyfrifoldeb pennaeth cynorthwyol yw goruchwylio'r heriau sgiliau yn strategol, ac ochr yn ochr â dau arweinydd canol, mae'n sicrhau bod elfennau addysgu a dysgu pob un o bedwar maes y cymhwyster yn cael eu cynllunio, eu cyflwyno a'u hasesu'n dda. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd cryf gan yr ysgol i sicrhau bod safonau ym mhob elfen yn cael eu marcio yn unol â'r meini prawf asesu. Cynhelir asesu ffurfiannol trwy gydol y cwrs, gydag adborth llafar ac ysgrifenedig o ansawdd uchel ar feysydd i'w gwella. Ymgymerir â'r asesiad crynodol ar gyfer pob carfan gan un marciwr fesul uned, gan sicrhau cysondeb marcio felly a lleihau gofynion safoni mewnol yn sylweddol.

Yn Ysgol Joseff Sant, mae ymrwymiad y staff, cefnogaeth rhieni a lefelau uchel o ymgysylltiad disgyblion i gyd wedi cyfrannu at lwyddiant yr ysgol yn y maes hwn. Mae'r ymrwymiad gan staff a disgyblion wedi'i seilio ar werth y cymhwyster a buddion profiadau – yn enwedig yr heriau hynny sy'n meithrin hyder, cymeriad a gwydnwch.

Mae'r deilliannau ar gyfer y garfan gyntaf drwy gymhwyster y Dystysgrif Her Sgiliau yn eithriadol o gryf, gydag 88.6% o'r garfan lawn yn cyflawni graddau A*-C a 30.3% yn cyflawni graddau A*/A.

## Colegau addysg bellach

### Cymwysterau TGAU

128 Yn gyffredinol, mae colegau wedi addasu eu darpariaeth yn dda i ymateb i argymhelliad yr Adolygiad o Gymwysterau y dylai dysgwyr astudio ar gyfer, ac ailsefyll, arholiadau TGAU Saesneg, Cymraeg neu fathemateg gyda'r nod o sicrhau gradd C (Llywodraeth Cymru, 2012). Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni TGAU Saesneg iaith a mathemateg, ond nid rhaglenni TGAU Cymraeg iaith.

129 Mae'r newid mewn pwyslais a graddfa'r ddarpariaeth TGAU wedi achosi colegau i ailystyried eu dull o gyflwyno TGAU Saesneg a mathemateg, a sut maent yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn fwy cyffredinol. Mae darpariaeth briodol gan bron yr holl golegau ar gyfer dysgwyr sy'n mynd i mewn i'r coleg ag ystod o gyraeddiadau blaenorol. At ei gilydd, nid yw colegau yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a datblygu'u medrau ymhellach trwy weithgareddau yn eu rhaglenni galwedigaethol.

130 Ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi cyflawni gradd D, mae llawer o golegau yn cynnig rhaglenni 'cyn-TGAU', wedi'u cynllunio i baratoi dysgwyr i gofrestru ar gwrs ailsefyll TGAU y flwyddyn ganlynol. Mae ychydig o golegau yn defnyddio cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif fel dewis amgen i raglenni cyn-TGAU. Mae'n rhy gynnar i ddweud pa ddull sy'n fwyaf effeithiol o ran paratoi dysgwyr ar gyfer eu rhaglenni ailsefyll TGAU.

131 Mae bron yr holl golegau yn cynnig dewis addas o raglenni ailsefyll TGAU Saesneg, mathemateg a mathemateg-rhifedd i ddysgwyr, gan ddefnyddio'r manylebau diwygiedig. Mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau mathemateg a mathemateg-rhifedd wedi'u cynllunio ar gyfer yr haen arholiad canolradd, er bod ychydig o ddosbarthiadau haen uwch yn cael eu cynnig, fel darpariaeth dosbarth nos yn gyffredinol.

132 Mae ychydig o golegau, fel Coleg Sir Gâr a Grŵp Llandrillo Menai, yn cynnig arholiadau ailsefyll TGAU, er mai niferoedd isel sy'n cofrestru ar y cyrsiau hyn. Mae ychydig o ddysgwyr yn ailsefyll eu TGAU mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr yn elwa o diwtorialau cyfrwng Cymraeg defnyddiol mewn grŵp bach neu un-i-un i ategu gwersi TGAU cyfrwng Saesneg.

133 Mae trefniadau effeithiol ar gyfer neilltuo dysgwyr i'r lefel astudio briodol gan yr holl golegau bron. Mae bron yr holl golegau yn dyrannu dysgwyr i grwpiau wedi'u lefelu, er enghraifft, cyn-TGAU neu TGAU, ac i grwpiau sydd wedi'u seilio'n fras ar faes galwedigaethol, er enghraifft, peirianwyr, ddysgwyr gwasanaethau cyhoeddus a thrin gwallt gyda'i gilydd. Mae hyn yn galluogi athrawon i deilwra eu deunydd addysgu, a'i osod mewn cyd-destun, er mwy apelio at ddiddordebau dysgwyr â chefndiroedd pwnc gwahanol.

**Astudiaeth achos 11: Coleg Sir Benfro – ‘desg sgiliau’**

Coleg addysg bellach gyffredinol yw Coleg Sir Benfro ac mae’n cynnig ystod o raglenni dysgu pellach, uwch, dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith. Mae’r coleg yn derbyn dysgwyr o ardal ddaearyddol eang, gan gynnwys Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Yng Ngholeg Sir Benfro, mae dysgwyr yn mynychu ‘desg sgiliau’ bwrpasol adeg cofrestru. Mae staff yn cofnodi manylion cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr, eu rhaglen bresennol, deilliannau ‘sgriniwr asesu cychwynnol’ a gwybodaeth berthnasol arall, ac yn eu neilltuo i ddosbarth addas. Mae hyn yn helpu sicrhau bod dysgwyr yn cael eu gosod ar y lefel cwrs cywir, ac yn cael eu gosod lle bo modd ar gwrs gyda dysgwyr o gefndiroedd galwedigaethol tebyg. Mae’r broses hon yn gwella effeithlonrwydd amserlennu, staffio a defnyddio ystafelloedd hefyd.

Ar ôl rhyw chwe wythnos, mae athrawon a rheolwyr yn cynnal adolygiadau ‘dysgwr iawn – cwrs iawn’ i sicrhau bod dysgwyr, mewn gwirionedd, yn astudio ar y cwrs priodol, gyda chyfleoedd wedi’u cynllunio i symud i gwrs mwy addas os oes angen.

134 Mae’r rhan fwyaf o golegau yn cofnodi a storio gwybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol dysgwyr, a’u deilliannau o asesiadau cychwynnol Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru yn briodol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid ydynt yn derbyn digon o wybodaeth fanwl am ysgol flaenorol dysgwr, neu gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu, i alluogi athrawon i ganolbwyntio’u sylw ar feysydd penodol i’w datblygu. Er enghraifft, mewn TGAU Saesneg, gall dysgwyr gario canlyniadau ymlaen o rai agweddau ar arholiadau blaenorol o’r asesiad llefaredd dan reolaeth. Yn ogystal, ceir gwybodaeth werthfawr o ddata lefel eitemau o’r unedau arholiad a fyddai’n ddefnyddiol i athrawon o ran gwybod pa mor dda y mae’r dysgwr wedi perfformio. Lle nad yw gwybodaeth am hyn yn cael ei throsglwyddo ymlaen, gall fod rhaid i ddysgwyr ailsefyll agweddau ar yr arholiad lle’r oeddent wedi cyflawni’n dda yn flaenorol.

135 Mae’r rhan fwyaf o golegau yn amserlennu dosbarthiadau ailsefyll TGAU a dosbarthiadau cyn-TGAU yn effeithiol, mewn blociau fel arfer. O ganlyniad, gall dysgwyr symud rhwng lefelau lle bo’n briodol. Yn gyffredinol, mae amserlennu yn ystyriol o anghenion a galluoedd dysgwyr. Fodd bynnag, mae cymhlethdod amserlennu yn golygu, mewn ychydig o achosion, bod dysgwyr a chanddynt ystod galluoedd rhy eang yn cael eu rhoi yn yr un grŵp.

136 Yn y rhan fwyaf o golegau, mae athrawon sy’n cyflwyno rhaglenni TGAU yn gymwys iawn ar gyfer eu rolau, ac mae ganddynt gymhwyster TAR neu gyfwerth. Mae cefndir pwnc i lefel gradd gan fwyafrif, naill ai mewn Saesneg neu fathemateg. O’r rhain, mae profiad addysgu gan fwyafrif yn y sector ysgol a’r sector ôl-orfodol. Nid oes graddau arbenigol gan leiafrif o athrawon, ond mae ganddynt brofiad priodol, fel athrawon medrau hanfodol neu lythrennedd neu rifedd yn nodweddiadol. Fel arfer, caiff yr athrawon hyn hyfforddiant a chyfleoedd ychwanegol addas i ennill cymwysterau perthnasol sy’n eu galluogi i symud i rôl addysgu TGAU.

137 Mewn llawer o golegau, mae athrawon TGAU mathemateg a Saesneg yn gweithio'n effeithiol fel timau bach o arbenigwyr, gyda chydlynydd ar gyfer pob tîm. Mae'r cyfathrebu rhwng aelodau tîm yn effeithiol yn gyffredinol, ac mae athrawon yn rhannu'u deunyddiau a'u harbenigedd yn fuddiol. Er enghraifft, yng Ngholeg Sir Benfro, mae cydlynwyr TGAU yn cynhyrchu bwletin defnyddiol bob tymor, a gaiff ei gylchredeg i'r holl staff ar draws y coleg, ac mae'n nodi'r prif destunau Saesneg a mathemateg yr ymdrinnir â nhw yn ystod y tymor. Mae hyn yn galluogi staff mewn meysydd galwedigaethol i ymgorffori cyfleoedd galwedigaethol i ddysgwyr ymarfer cysyniadau Saesneg a mathemateg cyfredol yn eu dysgu ehangach.

138 Mae'n gryn her i gwmpasu'r fanyleb TGAU mewn un flwyddyn academaidd. Yn y rhan fwyaf o golegau, fodd bynnag, caiff yr addysgu ar gyfer TGAU Saesneg a mathemateg ei gynllunio'n briodol, gan ddefnyddio adnoddau addysgu a rennir, a chynlluniau gwaith sydd wedi'u dylunio'n dda.

139 Yn gyffredinol, mewn dosbarthiadau TGAU Saesneg a mathemateg, mae gan yr athrawon berthynas gref â'r dysgwyr, ac maent yn gwybod yn dda beth yw eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu. Maent yn cynnal dosbarthiadau tawel â ffocws da sy'n gydnaws â dysgu ac ymddygiad da. Maent yn darparu esboniadau clir o gysyniadau, gweithgareddau ac ymarferiadau, a gwnânt ddefnydd da o waith unigol, gwaith mewn parau a grwpiau bach i hyrwyddo medrau dysgu, cymdeithasol a phersonol.

140 Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon:

- yn teilwra eu haddysgu'n effeithiol gan ddefnyddio cyd-destunau sy'n apelio at ddiddordebau galwedigaethol grwpiau o ddysgwyr, gan fynd i'r afael â'r cysyniadau Saesneg neu fathemateg dan sylw
- yn defnyddio canfyddiadau o asesiadau medrau dysgwyr yn dda i gynllunio ar gyfer dysgu effeithiol. Mae hyn yn eu galluogi i addysgu meysydd cyffredin fel dosbarth, ac i deilwra datblygiad medrau pellach i ddysgwyr penodol
- yn rhannu prif destunau gyda dysgwyr ar ffurf calendr; mae hyn yn galluogi dysgwyr i ddilyn datblygiad eu medrau a nodi unrhyw feysydd y gall fod angen iddynt eu hadolygu os ydynt yn colli dosbarthiadau

**Astudiaeth achos 12: Coleg Sir Gâr – ennyn diddordebau grwpiau penodol**

Mae Coleg Sir Gâr yn goleg addysg bellach cyffredinol mawr gyda champysau yn Llanelli, Rhydaman, Gelli Aur, Pibwrlwyd a Ffynnon Job. Mae mwyafrif y dysgwyr yn byw yn Sir Gaerfyrddin, gyda niferoedd sylweddol yn byw yn Sir Benfro, Abertawe a Cheredigion.

Mae Coleg Sir Gâr yn ceisio trefnu dosbarthiadau ailsefyll TGAU fel y gall dysgwyr o raglenni galwedigaethol tebyg fynychu'r un dosbarth gyda'i gilydd. Mae hyn yn galluogi athrawon i deilwra eu deunyddiau yn ôl diddordebau galwedigaethol y grŵp, ac ar yr un pryd, ymarfer a datblygu medrau sydd eu hangen ar gyfer TGAU.

> Er enghraifft, mae dysgwyr sy'n astudio amaethyddiaeth yn ymarfer nodi iaith ddarbwyllol a delweddaeth trwy ddadansoddi deunyddiau hyrwyddol ar gyfer tractorau a chombeiniau.  Mae'r dull hwn yn llwyddo i gipio diddordeb yr holl ddysgwyr bron, sydd wedyn yn canolbwyntio ac yn ymgysylltu'n dda â'r dasg.

141 Fodd bynnag, mewn dosbarthiadau lle ceir ystod eang o gyrhaeddiad blaenorol, nid yw athrawon yn addasu'u haddysgu yn ddigonol i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr. O ganlyniad, mae dysgwyr o allu is yn ei chael hi'n anodd, ac nid yw dysgwyr o allu uwch yn cael eu herio digon.

142 Mewn ychydig o golegau, nid yw athrawon yn pennu disgwyliadau ddigon uchel gan ddysgwyr.  Yn y rhain, mae lleiafrif o athrawon yn rhy barod i dderbyn bod dysgwyr yn dod i'w gwers heb baratoi'n ddigonol.  Er enghraifft, nid ydynt yn herio dysgwyr pan fyddant yn methu dod â'u gwaith o'r wythnos flaenorol, neu'n mynychu heb yr offer perthnasol.

143 Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn dibynnu'n rhy drwm ar dasgau cam wrth gam, ac nid ydynt yn datblygu digon ar ymagweddau annibynnol neu ddatrys problemau dysgwyr at gymhwyso cysyniadau.

### Bagloriaeth Cymru

144 Mewn colegau, mae'r mwyafrif o athrawon sy'n addysgu ar raglenni Bagloriaeth Cymru yn arbenigwyr galwedigaethol gyda chefndir cadarn yn eu disgyblaeth.  Mae perthynas dda gan yr athrawon hyn â'u dysgwyr, ac maent yn gwerthfawrogi'r medrau ychwanegol y mae'r Fagloriaeth yn bwriadu eu darparu.  Mae'r rhan fwyaf o athrawon wedi derbyn hyfforddiant priodol ac maent yn deall gofynion y fanyleb yn dda.  Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o athrawon sydd â mynediad i rwydweithiau arfer dda, neu adnoddau o ansawdd uchel a rennir.

145 Mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau'n dda i apelio at ddiddordebau galwedigaethol dysgwyr yn eu grwpiau, ac yn cysylltu heriau sgiliau a phrosiectau unigol yn effeithiol i'w prif raglenni.  Er enghraifft, mae dysgwyr trin gwallt a harddwch yn datblygu cynlluniau busnes ar gyfer salonau symudol, mae dysgwyr peirianneg yn defnyddio agweddau ar y broses ddylunio i ddatblygu a gwneud cynhyrchion, ac mae dysgwyr cerbydau modur yn datblygu 'llawlyfrau gweithdy' i wneud gwaith cynnal a chadw ar gerbydau.

146 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu  cymorth un-i-un ac adborth unigol effeithiol i ddysgwyr wrth iddynt weithio ar baratoi ar gyfer eu heriau sgiliau.  Fodd bynnag, mae natur lafurus yr asesiad yn golygu mai cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a datblygu'u medrau cyn cael eu hasesu.  Yn ogystal, mae'n anodd cwblhau pob un o'r heriau o fewn yr un flwyddyn sydd ar gael ar gyfer rhaglenni lefel 2 mewn coleg.

# Arweinyddiaeth

## Ysgolion

147 Yn gyffredinol, bu cynllunio priodol ar gyfer rhoi'r manylebau TGAU a Bagloriaeth newydd ar waith. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae uwch arweinwyr wedi cefnogi ystod eang o fentrau i hwyluso'r cynllunio hwn. Mae'r rhain yn cynnwys dyrannu amser i arweinwyr pwnc i ysgrifennu cynlluniau gwaith newydd a chynyddu'r amser ar gyfer cyfarfodydd adrannol. Mewn ychydig o achosion, mae adrannau wedi creu partneriaethau gwerthfawr gydag ysgolion eraill i gydweithio wrth iddynt baratoi adnoddau ar gyfer y cyrsiau newydd.

148 Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr pwnc yn dangos brwdfrydedd ar gyfer addysgu'u pwnc, ac mae llawer yn darparu arweinyddiaeth gymwys i'w hadrannau. Mae llawer yn gadarnhaol ynglŷn â newidiadau i fanylebau pwnc. Maent yn parhau i ddatblygu'u strategaethau addysgu yn briodol i ymateb i'r rhain. Mae llawer o arweinwyr pwnc wedi bod yn bwyllog wrth weithredu newidiadau i gynlluniau gwaith cyfnod allweddol 4. Mae'r pwyll hwn yn ganlyniad diffyg eglurder canfyddedig mewn negeseuon yn ymwneud ag asesu gan CBAC, ac argaeledd cyfyngedig, parhaus adnoddau a deunyddiau safonedig.

149 Mae'r mwyafrif o arweinwyr Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn gweithio'n agos gydag aelodau eu hadran wrth iddynt barhau i weithredu a datblygu'u darpariaeth. Gosodant ddisgwyliadau uchel ar gyfer y safonau y mae disgyblion i'w cyflawni, gan daro cydbwysedd da rhwng cefnogi a herio'r athrawon yn eu hadran. Defnyddir amser cyfarfodydd adrannol yn effeithiol i yrru blaenoriaethau, fel gwella ansawdd addysgu a chodi safonau disgyblion. Yn yr adrannau hyn, nid yw deilliannau'r arholiadau mwyaf diweddar wedi newid llawer neu maent wedi gwella. Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, nid yw arweinwyr pwnc wedi sicrhau bod yr addysgu yn eu hadran wedi addasu'n ddigon da ar gyfer y newidiadau yn yr arholiadau newydd. Yn yr adrannau hyn, mae deilliannau arholiadau wedi gostwng yn ddramatig.

150 Mae'r mwyafrif o arweinwyr Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn deall yn dda sut i arfarnu safonau ac ansawdd addysgu yn eu hadran. Maent yn casglu amrywiaeth eang o dystiolaeth ddefnyddiol o arsylwadau o wersi, craffu ar waith disgyblion, siarad â disgyblion a dadansoddi data arholiadau. Gwnânt ddefnydd da o wybodaeth o'r gweithgareddau hyn i gynllunio ar gyfer gwella ac i osod targedau heriol iddyn nhw eu hunain. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw arweinwyr canol yn deall sut i gasglu gwybodaeth ddefnyddiol o arsylwadau o wersi neu nid ydynt yn cysylltu eu harfarniad o addysgu â'r cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi a'r safonau a gyflawnant. O ganlyniad, nid ydynt yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio'n strategol.

151 Ym mhob ysgol, mae uwch arweinwyr yn deall yr effaith sylfaenol a gaiff deilliannau mewn TGAU Saesneg iaith, Cymraeg iaith, mathemateg, a Bagloriaeth Cymru ar fesurau perfformiad ysgolion. O ganlyniad i bwysau o'r rhain, mae llawer o uwch arweinwyr wedi ymateb drwy gynyddu'r amser cwricwlwm ar gyfer mathemateg a Bagloriaeth Cymru a phenodi athrawon ychwanegol yn y meysydd hyn. Bu cyfyngu ar y cwricwlwm mewn llawer o ysgolion o ganlyniad i hyn.

152 Hefyd, mae pwysau o’r mesurau perfformiad ac ansicrwydd ynglŷn ag asesu wedi arwain arweinwyr mewn llawer o ysgolion i gofrestru disgyblion yn gynnar. Gall y strategaeth hon fod yn briodol i’r disgyblion mwyaf abl sydd wedi meistroli pob agwedd ar gwrs ac y mae angen her bellach arnynt, er enghraifft drwy astudio ‘mathemateg ychwanegol’ mewn TGAU. Gall fod yn ymagwedd addas hefyd i sicrhau bod disgyblion sydd mewn perygl o ddadrithio, neu’r rhai hynny a allai adael yr ardal cyn diwedd Blwyddyn 11, yn ennill cymhwyster.

153 Mae cofrestru disgyblion yn gynnar ar gyfer arholiadau yn gostus, ac mewn ychydig o achosion mae’n costio mwy na chyflogi athro amser llawn. Mae cofrestru’n gynnar yn tarfu hefyd ar amserlen arferol ysgolion oherwydd paratoadau dwys ar gyfer yr arholiadau hyn. Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn sefyll arholiadau nad ydynt wedi’u paratoi’n llawn ar eu cyfer, gan nad ydynt wedi cwblhau’r cwrs. Mewn gormod o achosion, mae disgyblion yn bodloni â’r radd gyntaf a dderbyniant ac nid ydynt yn parhau â’u hastudiaethau yn y pwnc hwnnw hyd nes diwedd Blwyddyn 11. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion hyn yn cyflawni’u potensial llawn yn aml.

154 Lle mae Bagloriaeth Cymru yn llwyddiannus, ceir cefnogaeth gref gan y pennaeth ac aelodau eraill o’r uwch dîm arwain i’r cymhwyster. Lle nad yw hyn yn wir, caiff effaith negyddol sylweddol ar allu cydlynydd Bagloriaeth Cymru i gynllunio darpariaeth effeithiol a sicrhau deilliannau da ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

155 Mae rôl cydlynydd Bagloriaeth Cymru yn amrywio gryn dipyn o ysgol i ysgol. Mewn lleiafrif o achosion, ymdrinnir â Bagloriaeth Cymru fel pwnc craidd, ac mae gan y cydlynydd statws tebyg i arweinwyr Saesneg, Cymraeg a mathemateg. Mewn llawer o ysgolion, fodd bynnag, nid yw cydlynwyr Bagloriaeth Cymru yn gallu cynnal cyfarfodydd effeithiol. Y rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o staff sy’n addysgu Bagloriaeth Cymru yn addysgu pynciau eraill hefyd, ac maent yn rhoi blaenoriaeth i gyfarfodydd adrannol yn y rhain yn lle hynny.

156 Mewn lleiafrif o ysgolion, caiff Bagloriaeth Cymru ei hintegreiddio’n addas i brosesau hunanarfarnu ysgol gyfan. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o gydlynwyr Bagloriaeth Cymru sy’n casglu tystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau o wersi, craffu ar waith disgyblion neu ofyn am farnau disgyblion. Yn ogystal, dim ond ychydig o ysgolion sy’n cynnal dadansoddiad digon trwyadl o berfformiad disgyblion yn y cymhwyster. Er enghraifft, nid ydynt yn arfarnu perfformiad grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn ddigon da. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt nodi gwendidau a datblygu strategaethau union i wella deilliannau disgyblion.

157 Mae cadernid trefniadau rheoli perfformiad mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru yn rhy amrywiol. Mewn llawer o ysgolion, mae’r cydlynydd Bagloriaeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd ag aelod o’r uwch dîm arwain. Yn gyffredinol, mae’r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio’n addas ar gynnydd disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, mae diffygion yn ansawdd a chywirdeb tystiolaeth hunanarfarnu yn ei gwneud hi’n anodd i uwch arweinwyr ddwyn cydlynwyr Bagloriaeth Cymru i gyfrif yn llawn am eu rôl.

158 Ym mhob achos bron, daw’r staff a ddefnyddir i gyflwyno Bagloriaeth Cymru o ystod eang o gefndiroedd pwnc. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae uwch arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth uchel i ddewis staff â’r profiad, yr arbenigedd a brwdfrydedd priodol i

gyflwyno'r cwrs yn effeithiol.  Yn ogystal, maent yn ymdrechu i gynllunio amserlen fel bod parhad yn y staffio o flwyddyn i flwyddyn.  Mae hyn yn eu helpu i sicrhau addysgu a chynllunio o ansawdd da i'r cwrs, ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar forâl staff ac yn cyfrannu at ymgysylltiad cadarn gan ddisgyblion mewn gwersi.  Yn y mwyafrif o ysgolion, fodd bynnag, caiff staff eu defnyddio i gyflwyno Bagloriaeth Cymru ar sail eu hargaeledd ar yr amserlen yn bennaf.  Mae hyn yn golygu bod gormod o amrywio o ran brwdfrydedd ac arbenigedd ymhlith athrawon sy'n cyflwyno'r cwrs.  Mewn lleiafrif o ysgolion, rhoddir blaenoriaeth rhy isel i ddewis staff ar gyfer cwrs Bagloriaeth Cymru.  Yn aml, mae hyn yn arwain at ddiffyg parhad yn y staffio neu ddosbarthiadau yn cael eu rhannu rhwng dau neu fwy o athrawon.  Caiff y ddau ganlyniad hyn effaith negyddol ar ymgysylltiad disgyblion a safon y gwaith a gynhyrchant.

**Astudiaeth achos 13:  Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur – arweinyddiaeth cymhwyster Bagloriaeth Cymru**

Ysgol Gymraeg pob oed i ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed yw Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur.  Mae'n gwasanaethu ardaloedd Castell-nedd, Port Talbot a de Powys.  Mae tua 12% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae arweinwyr yn rhoi bri mawr ar y cymhwyster.  Mae egni, gweledigaeth a brwdfrydedd yr arweinydd pwnc, gyda chefnogaeth yr uwch dîm arwain, yn rhan annatod o lwyddiant yr ysgol wrth gyflwyno'r cymhwyster.  Mae'r ysgol yn blaenoriaethu staffio ac yn dewis athrawon Bagloriaeth Cymru'n ofalus i sicrhau profiad, gwybodaeth a pherchenogaeth o'r cymhwyster.

Mae'r ysgol yn dyrannu digon o amser i'r adran gynllunio fel tîm.  O ganlyniad, mae'r holl staff yn deall gofynion y fanyleb yn dda, ac yn marcio cynlluniau gwaith yn ddigonol i gynllunio'n effeithiol ar gyfer pob lefel gallu.  Mae'r ysgol yn trefnu cyfarfodydd ac yn amseru diwrnodau hyfforddiant i safonu gwaith a monitro cynnydd disgyblion fel tîm.  Mae'r tîm yn craffu ar waith disgyblion yn y cyfarfodydd hyn er mwyn arfarnu safonau.  Yn bwysig, mae'r adran yn rhan o weithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol gyfan, fel arsylwadau o wersi ac arfarnu dogfennau adrannol.

Mae gosod y cymhwyster ochr yn ochr â phynciau craidd eraill yn galluogi cynllunio'n briodol, wedi'i deilwra at anghenion unigol, ac i athrawon gynllunio profiadau sy'n ychwanegu her ychwanegol lle bo angen.  Hefyd, mae arweinwyr yn cynllunio profiadau ychwanegol neu wedi'u teilwra, fel gwibdeithiau i farchnadoedd lleol ar gyfer dosbarthiadau is eu gallu, er mwyn gweld 'Busnes a Menter' mewn sefyllfaoedd go iawn.

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth werthfawr i rieni yn ystod nosweithiau rhieni ac yn ei phrosbectws.  Mae tîm Bagloriaeth Cymru yn bresennol mewn nosweithiau rhieni er mwyn rhoi adborth priodol a thargedau.  Mae'r adran yn adrodd yn ffurfiol ar ddisgyblion drwy adroddiadau interim ac adroddiadau llawn.

O ganlyniad i'r strategaethau uchod, mae hygrededd a statws i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn yr ysgol ac ymhlith rhieni. Mae bron yr holl ddisgyblion yn gadarnhaol ynglŷn â'r cwrs. Mae safonau yn gyson uchel, ac enillodd 33.3% o ddisgyblion 'Rhagoriaeth' yn eu prosiect unigol.

## Colegau addysg bellach

159 At ei gilydd, mae colegau wedi ymateb yn dda i argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau, ac i'r manylebau TGAU a Bagloriaeth Cymru diwygiedig. Mae uwch arweinwyr yn ymroddedig i bwysigrwydd codi medrau dysgu llythrennedd a rhifedd, a galluogi dysgwyr i gael y cymwysterau 'pasbort' pwysig hyn.

160 Yn y rhan fwyaf o golegau, mae rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd mewn perthynas â chymwysterau TGAU yn glir. Mae gan uwch reolwr oruchwyliaeth strategol, a cheir strwythur cyfadran ac arweinyddiaeth ganol briodol – 'cyfadran medrau' yn nodweddiadol – i gyflwyno cyrsiau TGAU a'u rhaglenni paratoadol. Mae cynllunio strategol yn rhoi ystyriaeth glir i raddfa a goblygiadau argymhellion yr adolygiad ac arweiniad diweddar gan Lywodraeth Cymru.

161 Mae bron pob un o'r colegau wedi buddsoddi'n briodol i recriwtio staff newydd a hyfforddi staff presennol i gyflwyno cyrsiau ailsefyll TGAU Saesneg iaith, mathemateg a mathemateg-rhifedd, a'r cyrsiau paratoadol sy'n galluogi dysgwyr o fannau cychwyn is i'w hastudio.

**Astudiaeth achos 14: Grŵp Llandrillo Menai – datblygiad proffesiynol a staffio**

Sefydliad addysg bellach yw Grŵp Llandrillo Menai a ffurfiwyd yn 2012 drwy uno Coleg Menai, Coleg Llandrillo a Choleg Meirion-Dwyfor. Mae'r coleg yn cwmpasu ardal fawr ar draws gogledd orllewin Cymru, gyda chyfanswm o 13 campws ar draws siroedd Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd.

Ar ôl cyflwyno'r cymwysterau TGAU newydd mewn Saesneg, mathemateg a mathemateg-rhifedd, cynhaliodd arweinwyr yng Ngrŵp Llandrillo Menai ymarfer cwmpasu i bennu nifer y dysgwyr y byddent yn eu haddysgu a'u cefnogi drwy'r cymwysterau newydd. Yn ogystal, fe wnaethant adolygu nifer y staff a gyflogir gan y coleg a oedd yn addysgu ac yn cefnogi yn y pynciau hyn. Dangosodd eu canfyddiadau y byddai cryn brinder yn nifer yr athrawon cymwys a phrofiadol ac y byddai hyn yn creu her o ran bodloni'r galw.

Penderfynodd y coleg fynd i'r afael â'r mater drwy nifer o ddulliau i gynyddu nifer y staff addysgu. Roedd y rhain yn cynnwys recriwtio athrawon TGAU profiadol; uwchsgilio staff presennol, yn enwedig y rhai hynny a oedd yn addysgu medrau hanfodol a medrau sylfaenol; a chynnig y cyfle i'r holl staff yn y coleg hyfforddi fel athrawon TGAU. Yn ogystal, adolygodd y coleg ei swyddi rheolwyr canol a recriwtiodd gydlynwyr ar gyfer Saesneg a mathemateg-rhifedd.

> Roedd y nifer a ddangosodd ddiddordeb yn y swyddi newydd yn gadarnhaol iawn. Recriwtiwyd nifer o athrawon o ysgolion uwchradd, cymerodd staff presennol y cyfle i uwchsgilio ac fe wnaeth ychydig o staff o feysydd fel gweinyddu a chymorth dysgwyr wirfoddoli i gael hyfforddiant. O ganlyniad, mae'r timau TGAU Saesneg a mathemateg-rhifedd newydd yn cynnwys staff ag ystod eang a chydategol o brofiad addysgu. Mae athrawon o ysgolion uwchradd wedi dod â'u profiad o'r cymwysterau a strategaethau addysgu gwerthfawr. Mae athrawon o gefndiroedd medrau hanfodol a medrau sylfaenol wedi dod â'u harbenigedd mewn bodloni anghenion ystod eang o ddysgwyr a chynnig strategaethau amgen ar gyfer dysgu. I gynorthwyo'r athrawon, mae'r coleg wedi comisiynu cwmni hyfforddi i weithio gyda nhw i ddatblygu'u medrau ymhellach.
>
> O ganlyniad i'r strategaethau hyn, mae llawer o ddysgwyr yn y coleg yn dysgu medrau newydd yn gyflym, ac yn cyfnerthu medrau presennol yn dda.

162 Mae gan y rhan fwyaf o golegau gydlynwyr TGAU Saesneg a mathemateg sy'n gweithio'n dda gyda'u timau o arbenigwyr, ac yn cynhyrchu cynlluniau gwaith defnyddiol ac adnoddau addysgu a dysgu ar y cyd.

163 Trwy Colegau Cymru, mae colegau wedi casglu ystod o ddata defnyddiol yn ymwneud â chyfraddau llwyddo TGAU, ac maent wedi rhannu'r rhain ac yn eu defnyddio'n effeithiol i feincnodi â'i gilydd ac arfarnu llwyddiant eu darpariaeth. Mae bron yr holl golegau yn cynhyrchu adroddiadau hunanasesu medrau penodol a chynlluniau datblygu ansawdd. Mae'r rhain yn ddogfennau defnyddiol ar y cyfan, ac maent yn helpu ffocws rheolwyr ac athrawon ar wella darpariaeth mewn TGAU a'u rhaglenni paratoadol. Fodd bynnag, mae'r newid mewn ffocws tuag at gyflwyno TGAU yn annibynnol wedi lleihau sylw'r colegau ar y graddau y mae dysgwyr yn ymarfer a datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd drwy eu prif raglenni galwedigaethol

164 Yn ddiweddar, mae colegau wedi lleihau graddfa eu darpariaeth Bagloriaeth Cymru ar lefel Sylfaen a lefel Genedlaethol. Yn rhannol, mae hyn yn ymateb i arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ysgogwyd y lleihad hwn hefyd yn sgil pryderon ynghylch:

- dysgwyr o bosibl yn ailadrodd y cymhwyster wrth iddynt symud o'r ysgol i'r coleg ac yna drwy'r coleg
- natur lafurus yr asesiad, sy'n golygu mai cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a datblygu'u medrau cyn cael eu hasesu
- cydnabyddiaeth isel o'r cymhwyster ymhlith rhieni a chyflogwyr
- diffyg eglurder gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r polisi 'mabwysiadu cyffredinol' o ran Bagloriaeth Cymru
- diffyg eglurder a chyfathrebu gan CBAC ynglŷn â materion fel rheolau procsi, a'r gwasanaethau cymorth a ddarperir

165 Mae proses briodol ar waith ar gyfer cynllunio strategol a chynllunio'r cwricwlwm gan y rhan fwyaf o golegau i gefnogi Bagloriaeth Cymru. Mae uwch reolwyr yn gosod

targedau perthnasol ar gyfer recriwtio a deilliannau. Rheolwyr meysydd cwricwlwm sy'n gyfrifol am gyflwyno'r cymhwyster yn eu hardaloedd. Mae gan bron pob un o'r colegau gydlynydd Bagloriaeth Cymru sy'n gweithio'n dda i gefnogi staff, datblygu adnoddau'r cwricwlwm a goruchwylio safoni ar draws colegau. Mewn ychydig o achosion, nid yw prosesau hunanasesu yn rhoi darlun ddigon manwl na chydlynus o ansawdd addysgu, na dysgu mewn dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru, ac o ganlyniad, maent yn colli cyfleoedd i rannu arfer dda a nodi gwendidau yn yr addysgu.

### Cymorth gan CBAC

166 Mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, mae adborth gan ysgolion yn dangos y cafwyd cymorth addas gan CBAC wrth baratoi ar gyfer y manylebau newydd. Mae adborth am gymorth a chyrsiau hyfforddi ar gyfer Cymraeg a Bagloriaeth Cymru yn arbennig o gadarnhaol. Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, roedd adrannau o'r farn fod y cymorth a'r hyfforddiant yn llai effeithiol. Yn gyffredinol, mae eu beirniadaethau yn ymwneud â diffyg eglurder ynglŷn ag asesu, enghreifftiau annigonol o safonau a chyngor anghyson mewn cyrsiau dilynol. Mae llawer o ysgolion yn nodi cost cyrsiau hyfforddi a chost cyflenwi staff fel rhwystrau rhag cyfranogi'n llawn mewn hyfforddiant.

167 Mae llawer o ysgolion wedi gwneud defnydd da o'r gronfa werthfawr o gyn-gwestiynau ar wefan CBAC. Mewn lleiafrif o achosion, roedd ysgolion o'r farn nad oedd y papurau enghreifftiol a gynigiwyd yn adlewyrchu'r disgwyliadau yn y set gyntaf o arholiadau go iawn yn gywir. Teimlai ychydig o ysgolion na chafodd deunyddiau enghreifftiol ar gyfer Bagloriaeth Cymru eu darparu mewn pryd.

168 Mae'r mwyafrif o ysgolion yn gwerthfawrogi adroddiadau arholwyr pwnc CBAC. Defnyddiant y wybodaeth hon, ynghyd â data lefel eitemau, yn dda i nodi meysydd i'w gwella ac i wneud newidiadau dilynol i'w haddysgu.

169 Roedd adborth o golegau yn llai cadarnhaol nag adborth o ysgolion. Ar y cyfan, mynegodd colegau bryder bod cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth gyda CBAC yn araf a bod diffyg eglurder.

### Cymorth gan y consortia rhanbarthol

170 Mae ystod eang o gymorth wedi'i chynnig i ysgolion gan y consortia rhanbarthol wrth baratoi ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru, er enghraifft creu deunyddiau sampl sydd ar gael ar Hwb, modelau amserlennu sampl a chynlluniau gwaith sampl. Yn ogystal, mae'r holl gonsortia wedi trefnu rhwydweithiau rhanbarthol buddiol o arfer broffesiynol.

171 Yn y mwyafrif o achosion, mae ysgolion yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r cymorth cadarn a ddarperir gan y consortia rhanbarthol. Maent yn nodi'n glir sut fu'r consortia o gymorth i greu a rhannu adnoddau, drwy Hwb yn aml. Mae llawer o arweinwyr pwnc yn nodi cymorth penodol, defnyddiol iawn, er enghraifft ymgynghorwyr her ac ymgynghorwyr pwnc yn modelu arfer dda, fel ar sut i addysgu cyfosod. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn elwa o'r cyfleoedd rhwydweithio anffurfiol a ddarperir gan gyfarfodydd arweinwyr pwnc a drefnir gan y consortia. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o adrannau mathemateg sydd wedi derbyn lefelau effeithiol o gymorth uniongyrchol gan ymgynghorydd arbenigol pwnc.

## Sail dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- ymweliadau â 13 o ysgolion uwchradd, a thri choleg addysg bellach
- tystiolaeth a gasglwyd o weithgareddau â ffocws yn ystod pum arolygiad craidd yn Hydref 2017
- tystiolaeth o arolygu er 2010
- cyfweliadau â swyddogion pwnc CBAC
- cyfweliadau â chynghorwyr consortia rhanbarthol
- deilliannau arholiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4

Dewiswyd ysgolion a cholegau yn dilyn dadansoddiad o ddata, ystyriaeth o ganfyddiadau arolygu ac adborth gan AEM. Barnwyd bod safonau da neu ragorol yn y mwyafrif o ysgolion a'r holl golegau yr ymwelwyd â nhw mewn arolygiadau craidd er 2010. Fel arall, mae'r sampl mor amrywiol â phosibl, yn seiliedig ar nifer gymesur o ysgolion Saesneg a Chymraeg, lleoliad daearyddol a ffactorau economaidd-gymdeithasol. Mae'r sampl hefyd yn cynnwys nifer fach o ysgolion arloesi'r cwricwlwm.

Roedd yr ymweliadau yn cynnwys:

- cyfweliadau ag uwch arweinwyr ac arweinwyr pwnc
- arsylwadau o wersi er mwyn arfarnu effaith addysgu a dysgu mewn gwersi Saesneg, Cymraeg, mathemateg, mathemateg-rhifedd a Bagloriaeth Cymru
- cyfarfodydd gyda dysgwyr i drafod eu gwaith ac i gasglu eu barnau ar ansawdd y ddarpariaeth yn eu hysgol neu goleg
- craffu ar ddogfennau ysgolion neu golegau, gan gynnwys yr adroddiadau hunanarfarnu diweddaraf gan ysgolion, colegau ac adrannau, a chynlluniau gwella
- gwybodaeth a gasglwyd o arolygiadau craidd mewn ysgolion uwchradd a cholegau er 2010

Hoffai Estyn ddiolch i'r ysgolion a'r colegau canlynol a gefnogodd yr adolygiad thematig hwn:

Ysgol Uwchradd y Trallwng, Powys
Ysgol Uwchradd Willows, Caerdydd
Ysgol Uwchradd Caerdydd, Caerdydd
Y Pant, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gorllewin Mynwy, Trefynwy
Ysgol John Frost, Casnewydd
Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant, Casnewydd
Ysgol Bryn Elian, Conwy
Ysgol Gyfun Gŵyr, Abertawe
Ysgol Gyfun Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gyfun Gwynllyw, Torfaen

Ysgol Dyffryn Aman, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Bro Hyddgen, Powys
Ysgol Llanhari, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gyfun Cas-gwent, Sir Fynwy
Ysgol Uwchradd Castell Alun, Sir y Fflint
Ysgol Maes-y-Dderwen, Sir Gaerfyrddin
Ysgol y Moelwyn, Gwynedd
Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Joseff Sant, Wrecsam
Coleg Sir Gâr
Coleg Sir Benfro
Grŵp Llandrillo Menai

# Geirfa

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| CBAC | Bwrdd arholi Cymru, a alwyd yn flaenorol yn Gyd-bwyllgor Addysg Cymru |
| Cwestiynau arddull PISA | Mae cwestiynau yn arolygon PISA yn mynnu bod disgyblion yn gwneud llawer iawn o ddarllen ac yn defnyddio'u medrau rhesymu a dealltwriaeth o bwnc i lunio casgliadau. |
| Cwrs llinol | Cymhwyster gydag asesiadau yn cael eu cynnal ar ddiwedd y cyfnod astudio yn unig |
| Cymhwyster Lefel 1 | Graddau A*-G mewn TGAU neu gyfwerth |
| Cymhwyster Lefel 2 | Graddau A*-C mewn TGAU neu gyfwerth |
| Cymhwyster Lefel 3 | Graddau A*-G mewn Safon Uwch neu gyfwerth |
| Cymwysterau procsi | Cymwysterau y gellir eu defnyddio yn lle TGAU mathemateg a Saesneg ar gyfer Bagloriaeth Cymru lefel Sylfaen neu lefel Genedlaethol ôl-16 |
| DIRT | Acronym ar gyfer 'Amser Myfyrio Unigol Pwrpasol' lle mae disgyblion yn ymateb i farcio manwl, sy'n cynnwys herio cwestiynau, sylwadau gan eu hathrawon |
| GLH | Oriau dysgu dan gyfarwyddyd; amcangyfrif o'r amser sydd ei angen i gyflwyno cwrs penodol yn llwyddiannus |
| Gwasanaeth Cofnodion Dysgu | Gwasanaeth sy'n cael ei redeg gan y llywodraeth sy'n galluogi olrhain cyraeddiadau dysgwyr dros gyfnod |
| Hwb | Mentrau gan Llywodraeth Cymru yw HWB a HWB+ sy'n rhoi mynediad i ymarferwyr a dysgwyr at adnoddau ar-lein a rennir. |
| PISA | Rhaglen ryngwladol asesu myfyrwyr a weinyddir gan yr OECD |
| WEST | 'Pecyn cymorth sgiliau hanfodol Cymru'; cyfres o brofion ar-lein yw hwn i bennu lefel caffaeliad medrau dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd. |
| Ysgrifennu Eglurhaol | Disgrifiad ac esboniad manwl o syniad neu ddamcaniaeth |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |


# Atodiad

## Data cenedlaethol o arholiadau[1]

Mae'r atodiad hwn yn ystyried y deilliannau o arholiadau TGAU a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru er 2010. Nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng deilliannau cyn 2017 a'r rheini ar ôl y dyddiad hwn am y bu newidiadau sylweddol i'r cwricwlwm ac i natur y data a gesglir. Dylid bod yn ofalus wrth wneud unrhyw ddadansoddiadau yn seiliedig ar y deilliannau hyn.

### Ffigur 1: Canlyniadau arholiadau TGAU Saesneg iaith

### Canran y disgyblion yn ennill graddau A*-C er 2010





(a) O 2015-2016, mae'r garfan yn seiliedig ar Flwyddyn 11. Hyd at 2014-2015, roedd y garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) O 2016-2017, dim ond y fanyleb newydd ar gyfer TGAU Saesneg iaith a gynhwysir.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017a)

[1] Sylwer nad yw pob graff yn cynnwys yr un graddfeydd ac nid ydynt i gyd yn dechrau o 0 ar echelin y

### Ffigur 2: Canlyniadau arholiadau TGAU Saesneg iaith

### Canran y disgyblion yn ennill graddau A*-A er 2010




(a) O 2015-2016, mae'r garfan yn seiliedig ar Flwyddyn 11. Hyd at 2014-2015, roedd y garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) O 2016-2017, dim ond y fanyleb newydd ar gyfer TGAU Saesneg iaith a gynhwysir.


Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017a)

Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A*-C wedi amrywio ychydig er 2009-2010. Ceir gostyngiad mewn cyrhaeddiad yn dilyn newid yn y fanyleb yn 2012 a chynnydd graddol hyd at 2015-2016.  Fodd bynnag, nid yw cyflwyno'r fanyleb TGAU ddiweddaraf wedi newid cyfran y disgyblion sy'n ennill gradd A*-C.  Yn genedlaethol, mae cyfran y bechgyn sy'n ennill graddau A*-C yn 14.6% pwynt islaw cyfran y merched yn 2016-2017.  Nid yw hyn yn wahanol iawn i'r blynyddoedd blaenorol. Cyfran y disgyblion a oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a enillodd radd A*-C oedd 47.1% yn 2016 a 38.5% yn 2017.  Fodd bynnag, mae'r data ar gyfer y grŵp hwn o 2010 i 2016 yn cynnwys deilliannau Saesneg llenyddiaeth, ond nid yw'r data ar gyfer 2017 yn eu cynnwys (Llywodraeth Cymru, 2017a; gweler ffigur 1).

Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill graddau A*-A wedi amrywio ychydig er 2010 (gweler ffigur 2).  Nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng deilliannau cyn 2017 a'r rheini ar ôl y dyddiad hwn.  Nid yw cyflwyno'r fanyleb TGAU newydd wedi newid y gyfran hon yn nodedig (Llywodraeth Cymru, 2017b; ffigur 2).

### Ffigur 3: Canlyniadau arholiadau TGAU Cymraeg iaith

### Canran y disgyblion yn ennill graddau A*-C er 2010





(a) O 2015-2016, mae'r garfan yn seiliedig ar Flwyddyn 11. Hyd at 2014-2015, roedd y garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) O 2016-2017, dim ond y fanyleb newydd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith a gynhwysir.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017a)

**Ffigur 4: Canlyniadau arholiadau TGAU Cymraeg iaith**

**Canran y disgyblion yn ennill graddau A*-A er 2010**





(a) O 2015-2016, mae'r garfan yn seiliedig ar Flwyddyn 11. Hyd at 2014-2015, roedd y garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) O 2016-2017, dim ond y fanyleb newydd ar gyfer TGAU Cymraeg iaith a gynhwysir.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017a)

Bu tuedd gyffredinol o welliant yng nghyfran y disgyblion yn ennill graddau A*-C er 2010 (gweler ffigur 3). Nid yw cyflwyno'r fanyleb newydd wedi newid y gyfran hon. Yn genedlaethol, mae cyfran y bechgyn sy'n ennill graddau A*-C yn 16.9% pwynt islaw cyfran y merched. Nid yw hyn yn wahanol iawn i ddeilliannau blynyddoedd blaenorol. Cyfran y disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a enillodd radd A*-C yw 53.8%. Mae'r gyfran hon yn agos at y gyfran mewn blynyddoedd blaenorol. Dim ond amrywiadau bach iawn a gafwyd yng nghyfran y disgyblion yn ennill graddau A*-A er 2010. Mae'r gyfran hon wedi aros yr un peth ers cyflwyno'r fanyleb newydd (Llywodraeth Cymru, 2017a; ffigur 4).

## Ffigur 5: Canlyniadau arholiadau (y gorau ohonynt) – TGAU mathemateg (a mathemateg-rhifedd yn 2017)

### Canran y disgyblion yn ennill graddau A*-C er 2010





(a) O 2015-2016, mae'r garfan yn seiliedig ar Flwyddyn 11. Hyd at 2014-2015, roedd y garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) O 2016-2017, dim ond deilliant gorau'r disgybl yn naill ai'r fanyleb newydd ar gyfer TGAU mathemateg neu mathemateg-rhifedd sydd wedi'i gynnwys.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017a)

## Ffigur 6:  Canlyniadau arholiadau (y gorau ohonynt)

### Canran y disgyblion yn ennill graddau A*-A mewn TGAU mathemateg (a mathemateg-rhifedd yn 2017) er 2010





(a) O 2015-2016, mae'r garfan yn seiliedig ar Flwyddyn 11. Hyd at 2014-2015, roedd y garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
(b) O 2016-2017, dim ond deilliant gorau'r disgybl yn naill ai'r fanyleb newydd ar gyfer TGAU mathemateg neu mathemateg-rhifedd sydd wedi'i gynnwys.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017a)

Rhwng 2010 a 2016, fe wnaeth cyfran y disgyblion a enillodd radd A*-C mewn mathemateg gynyddu'n raddol.  Mae cyflwyno'r cymwysterau TGAU newydd wedi cael effaith sylweddol ar gyrhaeddiad cyffredinol disgyblion, ac fe wnaeth y gyfran a enillodd radd A*-C mewn mathemateg neu mathemateg-rhifedd ddirywio'n nodedig yn 2017 (gweler ffigur 5).  Mae'r bwlch yn parhau'n fach iawn rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched.  Gostyngodd cyfran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a enillodd radd A*-C o 43.6% yn 2016 i 38.3% yn 2017.  Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill gradd A* neu A yn debyg i'r rheini a gyflawnwyd rhwng 2010 a 2016 (gweler ffigur 6).  Fe wnaeth cyfran fymryn yn uwch o ddisgyblion sefyll TGAU mathemateg na TGAU mathemateg-rhifedd. Roedd cyfran y disgyblion a enillodd raddau A*-C (59% mewn mathemateg a 57% mewn mathemateg-rhifedd) ac A*-A (18% mewn mathemateg ac 17% mewn mathemateg-rhifedd) yn debyg iawn yn y ddwy fanyleb (Llywodraeth Cymru, 2017a).

### Ffigur 7: Deilliannau yn y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn 2017




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017b)

Yn 2017, cwblhaodd y garfan gyntaf o ddisgyblion Blwyddyn 11 Gymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru.  Cofrestrwyd tua 76% o ddisgyblion ar gyfer y dystysgrif her sgiliau ar lefel 1 neu lefel 2.  Cofrestrwyd cyfran uwch o ferched (79%) ar gyfer y cymhwyster na bechgyn (73%).  Dim ond dwy ran o dair o ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a gofrestrwyd ar gyfer y dystysgrif her sgiliau (Llywodraeth Cymru, 2017b).


Llwyddodd ychydig dros hanner y disgyblion i gwblhau’r dystysgrif her sgiliau ar lefel 2, a chyflawnodd ychydig o dan 40% gymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel Genedlaethol (lefel 2) yn gyffredinol.  Cyflawnodd ychydig o dan un rhan o bump o’r holl ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 y dystysgrif her sgiliau ar lefel 1.  Cyflawnodd tua 30% Fagloriaeth Cymru ar lefel Sylfaen (lefel 1).  Mae hyn yn uwch na’r gyfran a enillodd y dystysgrif sgiliau am fod ychydig iawn o ddisgyblion heb ennill y cymwysterau ategol sy’n angenrheidiol i gael achrediad ar lefel Genedlaethol.  Ar lefel 1 a lefel 2, dim ond nifer fach iawn o ddisgyblion wnaeth gwblhau’r dystysgrif her sgiliau yn llwyddiannus ond na wnaethant gyflawni cymhwyster cyffredinol Bagloriaeth Cymru.  Ni wnaeth tua 8% o ddisgyblion a gofrestrodd ar gyfer y dystysgrif her sgiliau ei chwblhau yn llwyddiannus ac felly ni wnaethant gyflawni Bagloriaeth Cymru ar yr un o’r ddwy lefel (Llywodraeth Cymru, 2017b).

Nid yw perfformiad disgyblion ar y graddau uwch yn cymharu’n dda â’r perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf neu fathemateg.  Dim ond ychydig iawn o ddisgyblion (5.3%) enillodd radd A* neu A yn y dystysgrif her sgiliau lefel 2.  Mae hon yn gyfran sylweddol is na’r gyfran a gyflawnodd raddau tebyg mewn Saesneg, Cymraeg iaith a mathemateg (gweler ffigur 8).  Cyflawnodd llai nag radd A* yn y dystysgrif her sgiliau, sydd yn sylweddol is nag mewn Saesneg a mathemateg (Llywodraeth Cymru, 2017b).

Cyflawnodd merched yn well na bechgyn yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru a'r dystysgrif her sgiliau.  Llwyddodd tua 60% o ferched i ennill y dystysgrif her sgiliau ar lefel 2, o gymharu â rhyw 43% o fechgyn (Llywodraeth Cymru, 2017b).  Roedd y gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn nodedig iawn o ran graddau A*-A, lle'r oedd cyfran y merched a gyflawnodd y graddau uwch fwy na theirgwaith yn fwy na'r gyfran o fechgyn.  Mae'r bwlch hwn y fwy nag mewn TGAU Saesneg iaith, Cymraeg iaith neu fathemateg lle mae'r bwlch yn fach iawn.

Llwyddodd tua thraean o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim i basio'r dystysgrif her sgiliau ar lefel 2, ac fe wnaeth ychydig dros eu hanner gyflawni'r dystysgrif ar yr un o'r ddwy lefel.  Cyflawnwyd gradd A* neu A gan ychydig dros un a hanner y cant.  Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys o ran cyflawni'r dystysgrif ar yr un o'r ddwy lefel oddeutu 19 pwynt canran, sy'n llai lawer na'r bwlch mewn perfformiad mewn dangosyddion eraill, fel y trothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg (32.3%) (Llywodraeth Cymru, 2017b).


**Ffigur 8:  Deilliannau graddau A*-A yn 2017 mewn Saesneg iaith, Cymraeg iaith, mathemateg a'r Dystysgrif Her Sgiliau**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017b)

### Ffigur 9: Cyfran y disgyblion yn sefyll arholiadau TGAU Saesneg llenyddiaeth a Cymraeg llenyddiaeth ym Mlwyddyn 11 er 2012

Sylwer mai'r enwadur ar gyfer Cymraeg llenyddiaeth yw nifer y disgyblion 15 oed / disgyblion ym Mlwyddyn 11 a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg iaith, yn hytrach na chyfanswm nifer y disgyblion 15 oed / Blwyddyn 11.




(a) O 2015-2016, mae'r garfan yn seiliedig ar Flwyddyn 11. Hyd at 2014-2015, roedd y garfan yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

(b) O 2016-2017, nid oedd cymwysterau llenyddiaeth yn cyfrif tuag at yr elfen llythrennedd o Lefel 2 yn gynhwysol.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2017b)

# Cyfeiriadau

CBAC (2014a) *WJEC GCSE in English language: Specification.* Caerdydd: CBAC. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.wjec.co.uk/qualifications/english/r-english-language-gcse-wales/WJEC%20GCSE%20English%20Language%20Specification%202015%20(24-10-14)%20-%20Branded.pdf.pdf?language_id=1 [Darllenwyd 14 Mawrth 2018]

CBAC (2014b) *TGAU CBAC Cymraeg iaith: Manyleb.* Caerdydd: CBAC. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.cbac.co.uk/qualifications/welsh-first-language/r-welsh-language-gcse/WJEC%20GCSE%20Welsh%20Language%20Specification%202015%2023-10-14%20-%20Branded%20-%20Cymraeg.pdf?language_id=2 [Darllenwyd 14 Mawrth 2018]

CBAC (2016) *Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/ Sylfaen: Cyfnod allweddol 4.* Caerdydd: CBAC. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate/welsh-bacc-from-2015/Welsh%20Bacc%20Specification%20KS4%2028%2010%2014%20-%20Branded..pdf [Darllenwyd 14 Mawrth 2018]

CBAC (2017a) *TGAU CBAC mathemateg-rhifedd: Manyleb.* Caerdydd: CBAC. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.wjec.co.uk/qualifications/mathematics/r-mathematics-gcse-2015/WJEC%20GCSE%20Maths%20-%20Numeracy%20Specification%20(From%202015%20WALES%20ONLY)%20(28-10-14).pdf?language_id=1 [Darllenwyd 14 Mawrth 2018]

CBAC (2017b) *TGAU CBAC Mathemateg: Manyleb.* Caerdydd: CBAC. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.cbac.co.uk/qualifications/mathematics/r-mathematics-gcse-2015/CBAC%20TGAU%20Mathemateg%20Manyleb%202015%20(From%202015%20-%20WALES%20ONLY)%20(28-10-14).pdf?language_id=2 [Darllenwyd 14 Mawrth 2018]

Cymwysterau Cymru (2017a) *Arferion cofrestru cynnar a lluosog ar gyfer arholiadau TGAU yng Nghymru*. Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o http://qualificationswales.org/media/2826/arferion-cofrestru-cynnar-a-lluosog-ar-gyfer-arholiadau-tgau-yng-nghymru-2017.pdf [Darllenwyd 22 Ionawr 2018]

Cymwysterau Cymru (2017b) *Argymell newidiadau ar ôl y niferoedd mwyaf erioed o gofrestriadau cynnar ar gyfer cymwysterau TGAU yng Nghymru.* Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/early-entry-2017/ [Darllenwyd 14 Mawrth 2018]

Engeli, Daly, a Davidson (2018) *Adolygiad o gynllun a model asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau, a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru.* Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.qualificationswales.org/media/3312/review-of-scc-final-report-w.pdf [Darllenwyd 27 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru (2012) *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru: Adroddiad terfynol ac argymhellion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/121127reviewofqualificationscy.pdf [Darllenwyd 22 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: Cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130415-lnf-guidance-cy.pdf [Darllenwyd 22 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2014) *Cymwys am oes: Sut mae cymwysterau yn newid yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140616-qualified-for-life-how-qualifications-in-wales-are-changing-cy.pdf [Darllenwyd 22 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU (disgyblion ym mlwyddyn 11/disgyblion 15 oed) fesul grŵp pwnc a rhyw).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15only-by-subjectgroup [Darllenwyd 22 Ionawr 2018]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Cronfa Ddata Arholiadau Cymru.* Heb ei gyhoeddi.